# Cynnal Safonau Proffesiynol 2018/19

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 4

Rhagair ........ 5

Ein dull o orfodi ........ 6

Ein gwaith gorfodi ........ 6

Prif themâu ........ 8

Rhoi gwybod am bryderon ........ 12

Pwy sy'n adrodd pryderon i ni? ........ 12

Pwy gyflwynodd adroddiadau i ni yn 2018/19? ........ 12

Rhoi gwybod i'r SRA am bryderon ........ 13

Nifer y pryderon ........ 13

Cyfnodau allweddol wrth ystyried pryder ........ 14

1. Golwg gychwynnol ar bryderon ein Tîm Asesu a Datrys Achosion yn Gynnar ........ 14

2. Rydym yn ymchwilio ........ **Error! Bookmark not defined.**

3. Dod ag ymchwiliad i ben ........ **Error! Bookmark not defined.**

4. Atgyfeirio at yr SDT ........ **Error! Bookmark not defined.**

Canlyniadau adroddiadau 2018/19 ........ 15

Pryderon a adroddwyd i ni 2018/19 ........ **Error! Bookmark not defined.**

Proses newydd ar gyfer asesu a datrys achosion yn gynnar ........ 17

Ymgysylltu adeiladol ........ 18

Cymryd camau brys ........ 19

Cyhoeddi sancsiynau a chytundebau setlo rheoleiddiol ........ 20

Dod ag achosion gerbron y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr ........ 21

Canlyniadau y cytunwyd arnynt ........ 22

Canlyniadau y cytunwyd arnynt 2018/19 ........ 22

Y broses apelio ........ 24

Apelio yn erbyn ein penderfyniadau ........ 24

Apelio yn erbyn penderfyniadau’r SDT ........ 24

Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau ni ........ 25

Penderfyniadau apêl allanol ........ 25

Ein costau ........ 27

Achosion gwerth uchel ........ 27
Achosion a gostiodd fwy na £100,000 yn 2018/19 ........ 27
Achosion a gostiodd fwy na £100,000 yn 2018/19 ........ 28
Lles yn y proffesiwn cyfreithiol ........ 30
Ein hymrwymiad ehangach i les yn y proffesiwn ........ 30
Chwythu’r chwiban i'r SRA ........ 30
Cefnogi tystion ........ 32
Monitro amrywiaeth ........ 33
Canfyddiadau o adroddiadau monitro amrywiaeth blaenorol ........ 33
Cwmpas ein dadansoddiad ........ 34
Canfyddiadau allweddol 2018/19 ........ 35
Rhyw ........ 36
Ethnigrwydd ........ 37
Oedran ........ 38
Anabledd ........ 39
Gwaith ac ymchwil pellach ........ 40
Atodiad 1: Y camau rydym ni'n eu cymryd a'r camau y mae'r SDT yn eu cymryd ........ 41
Rhestr o dermau ........ 44

# Amdanom ni

Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) yw rheoleiddiwr cyfreithwyr a chwmnïau'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn gweithio i amddiffyn aelodau o'r cyhoedd a chefnogi rheolaeth cyfraith a gweinyddu cyfiawnder. Rydym yn gwneud hyn drwy oruchwylio'r holl ofynion addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol i weithio fel cyfreithiwr, trwyddedu unigolion a chwmnïau i weithio, pennu safonau'r proffesiwn a rheoleiddio a gorfodi cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau hyn.

Ni yw'r rheoleiddiwr gwasanaethau cyfreithiol mwyaf yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnwys tua 80% o'r farchnad a reoleiddir. Rydym yn goruchwylio tua 199,000 o gyfreithwyr a 10,300 o gwmnïau'r gyfraith.

# Rhagair

Croeso i'r adolygiad Cynnal Safonau Proffesiynol ar gyfer 2018/19.

Gwyddom fod y mwyafrif llethol o'r 199,000 o gyfreithwyr a 10,300 o gwmnïau’r gyfraith rydym yn eu rheoleiddio yn gwneud gwaith da ac yn darparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel. Ond, pan fydd pobl neu gwmnïau'n methu cyrraedd y safonau rydym yn eu gosod, gallwn gymryd camau i orfodi ein safonau a sicrhau y gall y cyhoedd barhau i ddangos hyder yn y proffesiwn. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut a phryd y byddwn yn gwneud hynny.

Mae hefyd yn edrych ar y themâu allweddol yn ein gwaith. Fe welwch yn ystod 2018/19 ein bod wedi parhau i gael adroddiadau, 64 i gyd, am aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Eleni, mae themâu newydd wedi dod i'r amlwg yng nghyswllt rhenti tir a materion lesddaliad, yn ogystal ag iechyd a lles cyfreithwyr.

Mae'r adolygiad eleni yn cwmpasu cyfnod pontio pan wnaethom gyflwyno Strategaeth Orfodi newydd a rhoi proses newydd ar waith ar gyfer asesu a datrys achosion yn gynnar. Mae'r broses newydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu ymlaen llaw â phawb dan sylw, cyflawni canlyniadau cynharach a gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Rwy'n rhagweld y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i ffurf ymchwiliadau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Am y tro cyntaf ers 2014, rydym wedi cynnwys nodweddion amrywiaeth y bobl sy'n ymwneud â'n prosesau gorfodi yn yr adroddiad hwn. Mae amryw o resymau ymarferol pam nad ydym wedi gallu cynnwys yr agwedd hon ar waith gorfodi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Tra’r oeddem yn ymgymryd â’r rhain, rydym wedi cymryd camau pwysig ymlaen i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd mewn adolygiad annibynnol cynharach o amrywiaeth ym maes gorfodi.

Mae'r data newydd yn dangos bod dynion a phobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli yn y set o gyfreithwyr y codir pryderon yn eu cylch. Y cwestiwn allweddol i ni yn awr yw, beth allwn ni ei wneud i newid hyn ar gyfer y dyfodol? Er mwyn helpu i ateb y cwestiwn hwn, rydym wedi ymrwymo i gynnal ymchwil yn 2021 i ddeall y ffactorau strwythurol sy'n dod â gorgynrychioli o’r fath at drothwy ein drws, ac i nodi'r hyn y gallwn ei wneud am hyn a ble y gallwn weithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth. Mae'r rhain yn faterion anodd ac mae'n sicr yn bryd gweld beth y gallwn i gyd ei wneud i symud y pwyslais.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad eleni yn cynnig rhywfaint o flas ar faes o’n gwaith sy'n hanfodol, yn gymhleth ac yn aml yn heriol.

# Ein dull o orfodi

## Ein gwaith gorfodi

**Ein pwerau**

Mae ein pwerau ein hunain i bennu sancsiynau yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae ein pwerau dirwyo ar gyfer cyfreithwyr unigol wedi'u cyfyngu i £2,000, ac ni allwn ddileu cyfreithiwr oddi ar y Rhôl. Os byddwn yn credu fod angen y math hwn o weithredu, rhaid i ni fynd â'r achos i'r Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr (SDT). Gallwn, mewn rhai amgylchiadau, osod cyfyngiadau ar waith cyfreithiwr neu ar rywun nad yw'n gyfreithiwr sy'n gweithio mewn cwmni cyfreithiol.

Mae gennym bwerau mwy cadarn yng nghyswllt mathau penodol o fusnesau cyfreithiol. Gallwn osod dirwy o hyd at £250m ar strwythur busnes amgen (ABS), a elwir hefyd yn gorff trwyddedig, a hyd at £50m ar reolwyr a chyflogeion ABS. Mae'r pwerau mwy hyn yn adlewyrchu pryderon am y mathau hyn o fusnesau pan gawsant eu cyflwyno gyntaf. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i ddangos eu bod yn achosi mwy o risg na chwmnïau cyfreithiol traddodiadol.

Mae tabl o sancsiynau yr ydym ni a'r SDT yn eu gosod i'w gweld yn atodiad 1.

**Ein Strategaeth Orfodi**

Mae Ein Strategaeth Orfodi yn nodi sut y byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodi pan nad yw busnes neu unigolyn rydym yn ei reoleiddio wedi cyrraedd y safonau rydym yn eu disgwyl. Mae'n rhoi eglurder ynghylch sut y byddwn yn penderfynu p'un ai a ddylem weithredu mewn amgylchiadau penodol ai peidio, a'r hyn rydym yn ei ystyried wrth asesu pa mor ddifrifol yw'r camymddwyn a'r camau i'w cymryd.

Gwnaethom ddiwygio a chyhoeddi ein Strategaeth Orfodi newydd ym mis Chwefror 2019, ar ôl treulio mwy na thair blynedd yn ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a'r proffesiwn. Felly, mae'r adroddiad hwn, sy'n cwmpasu ein gwaith rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Hydref 2019, yn cwmpasu cyfnod pontio wrth i ni gyflwyno'r Strategaeth Orfodi newydd.

Rôl ein gwaith gorfodi yw:

- Cynnal a chadw safonau cymhwysedd ac ymddygiad moesegol.
- Diogelu cleientiaid a'r cyhoedd – rydym yn rheoli neu'n cyfyngu ar y risg o niwed drwy sicrhau nad yw unigolion a chwmnïau'n gallu troseddu eto neu'n cael eu rhwystro rhag gwneud hynny yn y dyfodol.
- Anfon neges at y bobl rydym yn eu rheoleiddio'n ehangach gyda'r nod o atal ymddygiad tebyg gan eraill.
- Cynnal hyder y cyhoedd wrth ddarparu gwasanaethau cyfreithiol.

**Helpu cwmnïau a chyfreithwyr i wneud pethau'n iawn**

Er mwyn helpu cwmnïau a chyfreithwyr i wybod pryd y gallent wynebu'r risg fwyaf o fethu cydymffurfio â'r safonau rydym yn eu disgwyl, neu beidio â chydymffurfio â'n rheolau, rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chyhoeddiadau, megis:

- ein llinell gymorth a'n gwasanaeth sgwrsio ar y we ynghylch Moeseg Broffesiynol, sydd wrth law i ateb cwestiynau am ein rheolau a'n rheoliadau

- canllawiau i helpu cwmnïau i ddeall sut mae ein rheolau a'n rheoliadau'n gweithio

- ein cyhoeddiad Risk Outlook blynyddol, sy'n amlygu'r risgiau mwyaf yn y sector a sut y gall cwmnïau a chyfreithwyr fynd i'r afael â nhw

- adolygiadau thematig o feysydd allweddol yn y sector cyfreithiol, gan amlygu risgiau a chodi ymwybyddiaeth o beth sy'n cael ei ystyried yn arfer da ac arfer drwg.

# Prif themâu

Rydym yn rheoleiddio tua 150,000 o gyfreithwyr wrth eu gwaith a chawsom tua 10,500 o adroddiadau yn 2018/19.

Mae nifer yr adroddiadau sy'n arwain at ryw fath o sancsiwn yn fach iawn, sy'n adlewyrchu bod y mwyafrif llethol o gyfreithwyr a chwmnïau'r gyfraith yn gwneud gwaith da ac yn haeddu’r ymddiriedaeth yr ydym i gyd yn ei rhoi ynddynt.

Mae rhai o'r materion a adroddwyd i ni yn ymwneud â phryderon a godir yn rheolaidd, er enghraifft, materion cyfrinachedd, camarwain y llys, neu fanteisio ar drydydd parti. Caiff meysydd cyffredin y gyfraith eu hadlewyrchu hefyd – trawsgludo a phrofiant, er enghraifft.

Mae pob achos yn wahanol, fodd bynnag, ac mae llawer yn gymhleth, gyda chymysgedd o achosion posibl o dorri ein rheoliadau. Ac, er bod amrywiad, rydym yn monitro adroddiadau i nodi unrhyw faterion penodol sy'n dod i'r amlwg o flwyddyn i flwyddyn.

Mae gwaith cyfreithwyr yn aml yn cynnwys meysydd polisi cyhoeddus ehangach. Er enghraifft, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae achosion sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle, cytundebau diffyg datgelu, gwyngalchu arian, a materion lesddaliad i gyd wedi bod yn amserol. Gall hyn arwain at gynnydd yn nifer y pryderon cysylltiedig sy'n cael eu dwyn i'n sylw ac, os yw'n briodol, rydym yn cymryd camau i atgoffa'r proffesiwn o'i gyfrifoldebau.

Mae materion amserol o'r fath yn aml yn uchel eu proffil ac yn ennyn diddordeb y cyhoedd – ac felly diddordeb y wasg a'r senedd. Gall ein gwaith i gynnal safonau proffesiynol chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r pryderon hyn, ochr yn ochr â gweithgarwch arall, efallai gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu drwy ddiwygio deddfwriaethol.

### Aflonyddu rhywiol

Un o'r themâu allweddol ar gyfer 2018/19 oedd pryderon am aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Mae gennym gyfrifoldeb i weithio, gydag eraill, i ymateb i'r pryderon a godwyd gan y mudiad #MeToo a chyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldeb yn 2018 ar aflonyddu rhywiol yn y gweithle.

Yn ystod 2018/19, gwnaethom barhau i gael adroddiadau, 64 i gyd, yn ymwneud ag aflonyddu ac ymddygiad rhywiol amhriodol mewn sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â gwaith. Gall honiadau o aflonyddu rhywiol gynnwys anfon negeseuon amhriodol, gwneud sylwadau amhriodol, cyswllt corfforol nad yw'n gydsyniol ac ymosodiadau rhywiol difrifol.

Mae'r rhain yn faterion anodd a sensitif, ac mae gennym dîm ymroddedig i ymchwilio i'r pryderon a godwyd. Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol i'r bobl sy'n rhan o'n hachosion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi diweddaru a chyhoeddi hysbysiadau rhybuddio ac wedi rhoi arweiniad ar rwymedigaethau adrodd i arwain cwmnïau ar sut i wella eu diwylliannau a'u harferion yn y gweithle.

Yn 2019 a 2020, aethom ymlaen i gyflwyno dau achos gerbron yr SDT lle'r oedd euogfarnau am ymosodiad rhywiol. Cafodd y cyfreithwyr dan sylw eu dileu oddi ar y Rhôl. Ar ben hynny, cafwyd cyhoeddusrwydd eang i achosion yn ymwneud ag ymddygiad amhriodol yn y gweithle lle nad oedd euogfarn. Mewn achos o'r fath yn 2020, penderfynodd yr SDT fod cyfreithiwr wedi ymddwyn yn amhriodol tuag at gyfreithiwr iau a chafodd ddirwy o £55,000.

### Cytundebau peidio â datgelu

Mae defnyddio cytundebau peidio â datgelu (NDAs) i atal datgelu camweddau ynddo'i hun yn fater proffil uchel, o ystyried ei berthynas â straeon cymdeithasol amserol fel #MeToo. Mae gan achosion eraill y potensial i fod yn rhai uchel eu proffil oherwydd pwnc yr anghydfod neu'r partïon dan sylw, y gellir eu cuddio drwy ddefnyddio NDA. Fel y gwnaethom nodi yn Cynnal Safonau Proffesiynol 2017/18,, fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad rhybuddio ym mis Mawrth 2018 i atgoffa'r proffesiwn o'i rwymedigaethau wrth ddrafftio NDA. Fe wnaethom ddiweddaru'r hysbysiad rhybuddio hwnnw ym mis Tachwedd 2020. Yn 2018/19, cawsom 14 o ymchwiliadau agored yn ymwneud â'u defnydd amhriodol. Er bod rhai'n ymwneud ag achosion o gamymddwyn rhywiol, roedd eraill yn ymwneud â materion eraill, megis ymgyfreitha ac esgeulustod.

Mae modd defnyddio NDA mewn ffordd ddilys ac nid yw cytundebau o'r fath yn anghyfreithlon nac yn anfoesegol ynddynt eu hunain. Yr hyn yr ydym yn poeni amdano yw'r cytundebau NDA hynny sy'n ceisio cyfyngu ar ddatgelu camymddygiad i reoleiddiwr, neu roi gwybod i'r heddlu am drosedd, er ei bod yn amhosibl eu gorfodi. Rydym am sicrhau nad yw'r rhai rydym yn eu rheoleiddio yn manteisio'n annheg ar y parti sy'n gwrthwynebu wrth lunio NDA. Mae'n ddigon posibl y bydd cyfreithwyr sy'n llunio cytundebau o'r fath yn methu gweithredu'n onest ac yn cynnal rheolaeth y gyfraith a gellid penderfynu eu bod wedi methu cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn cyfreithiol.

### Cynlluniau buddsoddi amheus

Yn 2018/19, fe wnaethom ymchwilio i 18 achos o gyfreithwyr yn rhan o gynlluniau buddsoddi amheus neu beryglus. Ar adeg o gyfraddau llog isel, ac, ar hyn o bryd yng ngoleuni pandemig Covid-19 a'i effaith ar yr economi, efallai y bydd llawer o bobl yn gweld cynlluniau buddsoddi sy'n cynnig cyfraddau llog uchel yn ddeniadol. Mewn rhai achosion, maent yn colli symiau sylweddol o arian.

Mewn llawer o achosion, nid yw cwmni cyfreithiol sy'n cymryd rhan mewn cynllun buddsoddi amheus yn rhan o fusnes arferol cwmni neu gyfreithiwr. Gall hyn fod yn rheswm allweddol pam na all ein cronfa iawndal (ac yswiriant y cwmni yn aml) helpu i adfer yr arian y mae pobl wedi'i golli.

Ond gallwn ymchwilio i'r cyfreithwyr dan sylw a chymryd camau lle rydym yn dod o hyd i gamymddwyn, ac rydym yn gwneud hynny. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi mynd â 48 o gyfreithwyr a dau gwmni gerbron yr SDT am gymryd rhan yn y mathau hyn o gynlluniau buddsoddi. Arweiniodd hyn at ddileu 16 o gyfreithwyr oddi ar y Rhôl, gwahardd wyth ohonynt ac £870,000 mewn dirwyon. Ym mis Awst 2020, fe wnaethom ddiweddaru ein hysbysiad rhybuddio a chyhoeddi adolygiad thematig ar gyfreithwyr yn cymryd rhan mewn cynlluniau buddsoddi amheus, atgoffa cyfreithwyr o'r arwyddion rhybudd ac o'r effaith ar y cyhoedd ac enw da'r proffesiwn.

### Rhent tir a materion lesddaliad

Mae pryder cynyddol ynghylch materion sy'n ymwneud â lesddaliad. Rydym yn gweld adroddiadau sy'n ymwneud â chymalau rhent tir uwch mewn eiddo lesddaliad tai newydd a rôl cyfreithwyr eiddo a thrawsgludo sy'n delio â'u gwerthu neu eu prynu.

Yn dibynnu ar sut maent wedi'u geirio, gall cymalau o'r fath arwain at rent tir cychwynnol yn lluosi'n yn gyflym dros flynyddoedd dilynol y lesddaliad. Gall hyn fod yn gostus a gall ddifetha gwerth a gwerthadwyedd lesddaliadau yn y dyfodol. Er mwyn helpu gyda hyder defnyddwyr yn y farchnad lesddaliad, mae'n bwysig i ni weithredu pan welwn gwmnïau cyfreithwyr yn ymddwyn yn amhriodol wrth ddelio â thrafodion lesddaliad.

Yn 2019/20, fe wnaethom ymchwilio i 16 o achosion yn ymwneud â chwmni neu gyfreithiwr yn methu cynghori'n briodol ar fodolaeth neu effaith cymalau rhent tir. Rydym yn rhagweld y bydd mwy fyth o gwynion wrth i bobl naill ai ddechrau clywed am ein penderfyniadau yn yr achosion cynnar hyn neu ddechrau ceisio gwerthu eu heiddo. Byddwn, wrth gwrs, yn cymryd camau gorfodi pan fydd angen.

**Gwyngalchu arian**

Mae'r sector cyfreithiol yn ddeniadol i droseddwyr oherwydd gall ymddangos fel busnes cyfreithlon i ddal neu drosglwyddo arian sydd wedi'i ennill yn sgil gweithgarwch troseddol. Yn aml, mae gan gwmnïau'r gyfraith a chyfreithwyr symiau mawr o arian yn eu cyfrifon cleientiaid a gallant drosglwyddo arian drwy eiddo neu drafodion eraill.

Fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad rhybuddio ym mis Mai 2019 ynghylch asesiadau risg cwmnïau sy'n gwyngalchu nwyddau heb fod yn arian. Mae asesiadau risg yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â gwyngalchu arian a rhaid i gwmnïau y mae rheoliadau gwyngalchu arian yn berthnasol iddynt gael un.

Cawsom nifer cyson o adroddiadau, 197, yn ymwneud â gwyngalchu arian yn ystod 2018/19. Parhaodd camau gorfodi i chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â gwyngalchu arian. Fe wnaethom erlyn 14 o achosion yn ymwneud â gwyngalchu arian yn yr SDT, gan arwain at ddileu chwe chyfreithiwr oddi ar y Rhôl, ymhlith sancsiynau eraill. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Hadolygiad o Wyngalchu Nwyddau heb fod yn Arian 2018/19.

Iechyd ymatebwyr a lles cyfreithwyr

Gwyddom y gall gweithio ym maes y gyfraith fod yn heriol a'ch rhoi dan straen. Pan fydd y straen hwn yn cael effaith negyddol ar waith cyfreithiwr neu gwmni, gall effeithio ar gymhwysedd ac arwain at gamgymeriadau ac, o bosibl, achosion difrifol o dorri ein safonau, megis anonestrwydd. Gall hyn arwain at ymgysylltu a gweithredu rheoleiddiol, y gellir eu hosgoi os bydd cyfreithwyr yn sylwi ar yr arwyddion rhybudd yn gynnar ac yn gofyn am y gefnogaeth a'r cymorth cywir. I gefnogi cyfreithwyr sy'n sâl, rydym wedi cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau ac yn gweithio gyda sefydliadau, megis LawCare, a all helpu.

Rydym wedi gweld cynnydd mewn achosion lle mae ymatebwyr wedi dweud bod y materion sydd wedi'u cynnwys yn ein prosesau yn gysylltiedig â phwysau gwaith. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn tystiolaeth feddygol mewn achosion gerbron yr SDT sy'n ymwneud ag addasrwydd cyfreithwyr i gymryd rhan yn ein hachosion.

Rydym hefyd yn ymwybodol y gall y broses ymchwiliadau achosi straen a gall waethygu neu sbarduno materion iechyd. Os gwelwn fod hyn yn wir, ac yn dibynnu ar y mater iechyd a'r dystiolaeth sydd ar gael, byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw addasiadau rhesymol neu gyfarwyddiadau rheoli achosion a allai fod o gymorth, a p'un ai a allai fod yn fwy priodol datrys materion drwy amodau gwaith, neu ganlyniad y cytunwyd arno, yn hytrach na gwrandawiad gerbron yr SDT.

Gall ein canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar helpu pobl i ddeall y dull rydym yn ei ddilyn wrth ymdrin â materion iechyd a godir gan y rhai yr ydym yn ymchwilio iddynt a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano o ran tystiolaeth feddygol.

**Rhybudd risg**

Rydym yn sganio'r amgylchedd cyfreithiol i nodi risgiau posibl. Rydym yn llunio ystod o ddeunydd i godi ymwybyddiaeth a helpu'r proffesiwn i reoli problemau, gan helpu i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol.

Yn 2018/19, tynnodd ein cyhoeddiad Risk Outlook sylw unwaith eto at y themâu a'r risgiau a nodir uchod, megis gwyngalchu arian a chynnwys cyfreithwyr mewn cynlluniau buddsoddi amheus. Roedd hefyd yn trafod cadw arian cleientiaid yn ddiogel a safonau gwasanaeth gwael, gan nad oes llawer o bobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan eu cyfreithiwr a beth i'w wneud os aiff rhywbeth o'i le.

Mae seiberdroseddu yn parhau yn risg yn y sector cyfreithiol, fel y mae mewn diwydiannau eraill. Canfu adolygiad diweddar i 40 o seiberymosodiadau ar gwmnïau'r gyfraith fod £4m o arian pobl wedi'i golli yn eu sgil. Rydym yn parhau i annog cwmnïau'r gyfraith i roi gwybod i ni am seiberfwlio ac achosion a fu bron â digwydd, fel y gallwn rybuddio'r proffesiwn ehangach am dactegau diweddaraf troseddwyr drwy ein rhybuddion a'n e-fwletinau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi adnoddau ychwanegol ar seiberddiogelwch ar gyfer cwmnïau'r gyfraith yng ngoleuni'r ffyrdd newydd o weithio yn sgil pandemig Covid-19. Mae ein Risk Outlook 2020 yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am seiberdroseddu a risgiau eraill yn y sector cyfreithiol.

Mae rhybuddion sgâm ein gwefan yn parhau i gael eu defnyddio'n dda, gyda mwy na 150,000 o ymweliadau yn 2018/19. Maent wedi'u cynllunio i rybuddio cwmnïau a'r cyhoedd am fusnesau sy'n camddefnyddio manylion cwmnïau'r gyfraith a chwmnïau'r gyfraith ffug sy'n ceisio twyllo pobl.

# Rhoi gwybod am bryderon


## Pwy sy'n adrodd pryderon i ni?

Daw rhai pryderon atom yn uniongyrchol o'r proffesiwn, megis gan gyfreithwyr neu'r swyddogion cydymffurfio sy'n gweithio mewn cwmnïau'r gyfraith.

Daw eraill gan aelodau o'r cyhoedd, yr heddlu a'r llysoedd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Ombwdsmon Cyfreithiol (LeO), y sefydliad sy'n ymdrin â chwynion am safonau gwasanaeth y mae pobl yn eu derbyn gan eu cyfreithiwr. Bydd yr Ombwdsmon Cyfreithiol yn cysylltu â ni os oes ganddo bryderon yn ystod un o'i ymchwiliadau y gallai cyfreithiwr fod wedi torri ein rheolau. Fel pob corff rheoleiddio, rydym hefyd yn monitro adroddiadau'r cyfryngau ac adroddiadau eraill.

Rydym hefyd yn nodi pryderon wrth i ni ymgymryd ag agweddau eraill ar ein gwaith. Er enghraifft, rydym yn cynnal adolygiadau thematig o fathau penodol o waith neu ofynion cyfreithiol, megis gweithdrefnau gwyngalchu nwyddau heb fod yn arian.

## Pwy gyflwynodd adroddiadau i ni yn 2018/19?




**Cyfanswm yr adroddiadau yr ymdriniwyd â nh ym mlwyddyn 2018/19: 9,649**

## Rhoi gwybod i'r SRA am bryderon

Dros y pedair blynedd diwethaf, ar gyfartaledd, rydym wedi cael rhwng 11,000 a 12,000 o adroddiadau yn codi pryderon am gyfreithwyr a busnesau cyfreithiol rydym yn eu rheoleiddio.

Rydym yn ystyried yn ofalus yr wybodaeth a anfonir atom ac yn penderfynu a oes angen i ni ymchwilio ai peidio. Efallai y byddwn yn gofyn cwestiynau i bartïon perthnasol er mwyn deall y materion yn well.

Mewn rhai achosion, gallwn ddatrys y pryderon drwy ymgysylltu'n brydlon â'r cwmni, gan sicrhau eu bod yn cywiro unrhyw ddiffygion. Lle bo angen, byddwn yn cymryd datganiadau tyst, yn ymweld â chwmnïau yn bersonol ac yn dadansoddi tystiolaeth, er enghraifft, cyfrifon banc, datganiadau ariannol a dogfennau eraill.

Ar ôl ystyried y mater yn ofalus a siarad â'r holl bartïon dan sylw, byddwn yn gwneud penderfyniad ar y camau nesaf yn unol â'n Strategaeth Orfodi.

Mewn achosion difrifol iawn, rydym yn cyfeirio'r cwmni neu'r cyfreithiwr at yr SDT. Mae'r SDT yn annibynnol arnom ac mae ganddo bwerau nad ydynt ar gael i ni. Er enghraifft, gall wahardd cyfreithiwr, rhoi dirwy ddiderfyn iddo neu ei atal rhag gweithio.


## Nifer y pryderon

Cyfanswm nifer yr adroddiadau a gawsom yn 2018/19 oedd 10,576, o'i gymharu â 11,452 yn 2017/18. Mae hyn yn ostyngiad o tua 8%. Efallai mai un rheswm am hyn yw dulliau cyfathrebu gwell. Yn benodol, rydym wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan ac, yn 2018, gwnaethom hefyd gyflwyno taflen ar y cyd â'r LeO. Mae ganddo wybodaeth yn ymwneud â pha sefydliad y dylid codi cwyn gydag ef, lle mae rhywun wedi dod ar draws problem neu broblem gyda gweithiwr neu gwmni cyfreithiol proffesiynol. Byddwn yn parhau i fonitro'r ystadegyn hwn i weld a yw'n rhan o unrhyw duedd barhaus.

Roedd cyfanswm nifer yr adroddiadau yr ymatebodd y tîm iddynt ac yr ymdriniwyd â hwy yn yr un cyfnod tua 9,600. Mae hyn yn ostyngiad o 16% o'i gymharu â'r niferoedd yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2017/18. Y rheswm am hyn yw'r gostyngiad cyffredinol yn y pryderon a adroddwyd i ni, fel y gwelir yn y siart isod, a rhai newidiadau yn ein prosesau.

Sylwch, nid oes cysylltiad llinol bob amser rhwng nifer yr adroddiadau a gawn a'r nifer yr ymdrinnir â nhw yn yr un cyfnod o 12 mis. Y rheswm am hyn yw na fydd pob achos yn cael ei ddatrys yn unol â'r amserlen honno. Dyna pam y gwnaethom ymdrin ag ychydig mwy o bryderon yn 2017/18 o'i gymharu â'r nifer a gawsom.

**Nifer y pryderon 2016–2019**



## Cyfnodau allweddol wrth ystyried pryder

### 1 Golwg gychwynnol ar bryderon ein Tîm Asesu a Datrys Achosion yn Gynnar

**Nid ydym yn ymchwilio**

Mewn llawer o achosion, ni fydd angen i ni ymchwilio. Byddwn bob amser yn esbonio ein penderfyniad dros beidio ag ymchwilio. Hanner ffordd drwy 2018/19, gwnaethom gyflwyno proses newydd i reoli'r gwaith hwn ac mae bellach yn cynnwys ymgysylltu mwy â'r partïon dan sylw.

**Rydym yn ailgyfeirio'r mater i'r LeO**

Mae'r LeO yn delio â chwynion am safon gwasanaeth cwmni cyfreithiol neu gyfreithiwr. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r LeO. Rydym yn anfon materion perthnasol ato ac i'r gwrthwyneb.

**Rydym yn ailgyfeirio materion i awdurdodau eraill**

Mewn rhai achosion, ni allwn ymchwilio gan nad ydynt yn rhan o'n hawdurdodaeth neu gan eu bod yn ymwneud â chwmnïau neu bobl nad ydym yn eu rheoleiddio.

**Rydym yn ailgyfeirio'r mater yn fewnol**

Rydym yn gwneud hyn, er enghraifft, os yw'n hawliad mewn gwirionedd ar ein cronfa iawndal neu'n ymholiad awdurdodi.

### 2 Rydym yn ymchwilio

**Siarad â'r holl bartïon perthnasol**

Fel arfer, mae angen i ni ofyn am ragor o wybodaeth. Efallai y byddwn yn siarad â'r sawl a gododd y pryder gyda ni a'r cwmni neu'r cyfreithiwr dan sylw a/neu'n cysylltu â thrydydd parti. Lle bo angen, byddwn yn casglu dogfennau a thystiolaeth.

Byddwn yn ysgrifennu neu'n siarad â'r cwmni neu'r cyfreithiwr, gan nodi ein pryderon yn ffurfiol. Maent yn cael cyfle i ymateb.

**Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl**

Rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon drwy gydol yr ymchwiliad. Mae'r rhan fwyaf o'n hymchwiliadau'n cael eu datrys o fewn blwyddyn.

### 3 Dod ag ymchwiliad i ben

**Os byddwn yn penderfynu nad yw'r cwmni neu'r cyfreithiwr wedi torri ein safonau na'n rheoliadau**

Mewn achosion lle gwelwn nad yw'r cwmni neu'r cyfreithiwr wedi cyrraedd y safonau rydym yn eu disgwyl, byddwn bob amser yn egluro ein canfyddiadau a pham nad ydym yn cymryd camau i'r bobl a roddodd wybod i ni am y mater i ddechrau.

**Datrys drwy ymgysylltu â'r cwmni**

Mae hyn yn digwydd pan fydd yr achos o dorri ein safonau neu reoliadau yn fân, nid oes unrhyw risg barhaus i'r cyhoedd nac yn y dyfodol, pan mae'r cwmni neu'r cyfreithiwr wedi cymryd camau cynnar i unioni'r mater ac roedd ganddo ddull cydweithredol ac adeiladol o ddatrys y mater.

**Rydym yn pennu sancsiwn**

Mewn rhai achosion, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn pennu sancsiwn neu'n cytuno ar ganlyniad.

Gall hyn gynnwys dirwyo cwmni neu gyfreithiwr neu osod cyfyngiadau ar eu tystysgrif gwaith.

### 4 Atgyfeirio at yr SDT

**Caiff achos ei gyfeirio at yr SDT ac ef fydd yn gwneud penderfyniad**

Caiff yr achosion mwyaf difrifol eu cyfeirio at yr SDT. Mae'n ystyried y mater ac yn penderfynu a ddylid cael gwrandawiad. Os bydd gwrandawiad, bydd yr SDT yn penderfynu a yw rhoi sancsiwn yn briodol.

Gallwn ni a'r cwmnïau a'r cyfreithwyr dan sylw wneud cais i apelio yn erbyn penderfyniadau SDT.

## Canlyniadau adroddiadau 2018/19

Mae'r diagram 'Pryderon a adroddwyd i ni yn 2018/19' yn rhoi trosolwg o nifer yr adroddiadau a gawsom am ymddygiad cwmnïau a chyfreithwyr yn 2018/19 a'r canlyniadau a gofnodwyd yn yr un cyfnod. Nid oes cysylltiad llinol rhwng nifer yr adroddiadau a gawn a nifer y canlyniadau mewn cyfnod o 12 mis. Y rheswm am hyn yw na fydd pob achos yn cael ei ddatrys yn unol â'r amserlen honno.

Mae'r rhan fwyaf o'n hymchwiliadau'n cael eu datrys o fewn blwyddyn. Yn 2017/18 a 2018/19, yr amser canolrif a gymerwyd i gwblhau asesiad cychwynnol o bryder a godwyd gyda ni oedd pedwar diwrnod gwaith.[1] Datryswyd 95% a 93% o achosion o fewn 12 mis yn erbyn dangosydd perfformiad allweddol o 95% yn 2017/18 a 2018/19, yn y drefn honno.

Yn 2018/19, gwnaethom gyflwyno ein proses newydd ar gyfer asesu a datrys yn gynnar. Mae'r broses newydd yn cyflwyno trothwy ar gyfer agor ymchwiliad sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Orfodi newydd. Mae hyn wedi arwain at adrodd llai o bryderon i ni gan arwain at ymchwiliad llawn: nid oedd angen ymchwilio i 5,108 o faterion yn 2018/19 o'i gymharu â 4,711 yn 2017/18.


Yn hytrach, daw materion i ben ar ôl ymgysylltu'n gynnar â phartïon – gan arwain at ymateb mwy cymesur. Mae hefyd wedi arwain at well gwasanaeth i gwsmeriaid a llai o gwynion am ein penderfyniadau gan ein bod yn gallu rheoli disgwyliadau'n llawer mwy effeithiol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y broses newydd ar gyfer asesu a datrys yn gynnar.

Fodd bynnag, os caiff mater ei gyfeirio at yr SDT, neu os oes gweithgaredd arall, megis ymchwiliad gan yr heddlu neu os cawn adroddiadau cysylltiedig pellach, gall achosion gymryd llawer mwy o amser.

Nid yw'r rhan fwyaf o bryderon yn arwain at gamau gorfodi na chyfeirio achos at yr SDT. Y rheswm am hyn yw, mewn llawer o achosion, gallwn ddatrys materion drwy ymgysylltu a heb fod angen cymryd camau gorfodi. Mewn llawer o achosion eraill, rydym yn gweld nad yw'r cyfreithiwr neu'r cwmni wedi torri ein rheolau. Rydym yn cadw'r holl wybodaeth a anfonir atom yn ein cofnodion ac, os yw'n briodol, yn ei defnyddio i ystyried risg os codir pryderon yn y dyfodol.

[1] Caiff y ffigur canolrif ei bennu drwy restru nifer y diwrnodau a gymerodd i gwblhau pob asesiad cychwynnol yn 2018/19 a thynnu'r rhif canol.

## Pryderon a adroddwyd i ni 2018/19




- Gall un achos arwain at sawl canlyniad. Fel y soniwyd eisoes, nid oes cysylltiad llinol rhwng nifer yr adroddiadau a gawn a nifer y canlyniadau mewn cyfnod o 12 mis.
- Os caiff adroddiad ei ailgyfeirio'n fewnol, y rheswm yn gyffredinol yw mai mater i'n timau Awdurdodi neu Gronfa Iawndal ydyw, er enghraifft.

- Rydym yn ailgyfeirio materion at yr LeO os ydym yn credu ei bod yn gŵyn sy'n gysylltiedig â lefel gwasanaeth.
- Mae ystyr y gwahanol fathau o ganlyniadau a'r camau rydym ni a'r SDT yn eu cymryd i'w gweld yn yr eirfa ac yn atodiad 1.

## Proses newydd ar gyfer asesu a datrys achosion yn gynnar

Yn 2018/19, gwnaethom dreialu proses newydd ar gyfer asesu a datrys achosion yn gynnar ar gyfer asesu'r holl bryderon a adroddwyd i ni. Mae'r broses asesu newydd yn ystyried achosion yn drylwyr gan ddefnyddio ein Strategaeth Orfodi newydd ac mae'n defnyddio ymagwedd llawer mwy penodol i gwsmeriaid wrth ymgysylltu â'r bobl sydd wedi cyflwyno adroddiadau i ni. O'r 5,108 o bryderon a adroddwyd i ni lle nad oedd angen ymchwiliad, pasiodd 4,335 drwy'r broses newydd hon.

Rydym yn defnyddio prawf trothwy asesu tri chyfnod newydd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Strategaeth Orfodi newydd i'n helpu i benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad ai peidio. Rydym yn ystyried:

- A gafodd Safonau a Rheoliadau'r SRA eu torri yn seiliedig ar yr honiadau a wnaethpwyd?
- A yw'r achos posibl o dorri yn ddigon difrifol sy'n golygu y gall, os caiff ei brofi, arwain at weithredu rheoleiddiol?
- A oes modd profi’r toriad hwnnw?

Dim ond os ‘do, ydy, oes’ yw’r atebion i’r tri chwestiwn hwn y bydd y pryder yn pasio'r prawf hwn. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnom, byddwn yn gofyn am yr wybodaeth honno i'n helpu i benderfynu. Byddwn yn dilyn y Strategaeth Orfodi wrth ystyried bob cam o'r prawf. Byddwn yn dweud wrth y sawl a roddodd wybod i ni am y pryder os a phryd y byddwn yn penderfynu symud i gynnal ymchwiliad llawn i'r mater. Byddwn hefyd yn cynghori ac yn egluro ein rhesymau os byddwn yn penderfynu peidio ag ymchwilio.

Efallai mai’r rhesymau pam rydym yn cau materion ar y cam hwn yw oherwydd na chafodd ein rheolau eu torri, rydym yn datrys y mater drwy ymgysylltu, neu nid yw'r pryder a gyflwynwyd yn peri risg reoleiddiol ddigon sylweddol. Er nad yw'r materion hyn yn symud ymlaen i ymchwiliad, rydym yn ymchwilio iddynt yn ofalus, yn ymgysylltu â chwmnïau lle bo angen ac yn cadw materion ar ffeil rhag ofn y bydd angen i ni gyfeirio atynt yn y dyfodol.

# Ymgysylltu adeiladol

Mewn rhai achosion, bydd ymgysylltu â chwmni neu gyfreithiwr i ddatrys mater a helpu gyda chydymffurfiaeth yn gam gweithredu priodol.

Er enghraifft, efallai y byddwn yn cynnig arweiniad i'r cwmni neu'r cyfreithiwr ac yn eu goruchwylio a'u monitro wrth iddynt gymryd camau i unioni'r mater. Bydd hyn yn berthnasol pan fydd yr achos o dorri ein rheolau wedi bod yn fân, lle mae tystiolaeth yn awgrymu ei bod yn annhebygol o gael ei hailadrodd a lle nad oes risg barhaus. Bydd hefyd yn berthnasol lle mae gan y cwmni neu'r cyfreithiwr dan sylw ddull agored, cydweithredol ac adeiladol o ddatrys y materion.

**Cymryd camau nesaf priodol**

Pan fyddwn wedi penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd ym mhob achos sy'n dod i'n sylw, byddwn bob amser yn egluro sut yr ydym wedi dod i'n penderfyniad i bawb sydd ynghlwm wrth yr achos.

Dim ond er mwyn diogelu a sicrhau budd y cyhoedd y byddwn yn cymryd camau, ac rydym yn ystyried popeth fesul achos. Rydym yn canolbwyntio ar y materion mwyaf difrifol, megis lle mae cwmni neu gyfreithiwr wedi disgyn ymhell islaw'r safonau rydym yn eu disgwyl mewn achos ynysig, neu lle maent wedi disgyn ymhell islaw'r safonau hyn yn gyson. Yn yr achosion hyn, mae'n debygol y byddwn yn cymryd camau gorfodi.

# Cymryd camau brys

Pan gawn wybod am fater mwy difrifol a bod risg uniongyrchol i'r cyhoedd, mae camau y gallwn eu cymryd i gyfyngu ar y risg. Y rhain yw:

- Ymyrryd mewn cwmni cyfreithiol: gallwn gymryd meddiant o'r holl arian a ffeiliau sydd gan y cwmni neu'r cyfreithiwr, gan gau'r cwmni neu'r cyfreithiwr i bob pwrpas. Rydym yn gwneud hyn mewn achosion lle gwyddom fod pobl mewn perygl o gael gwasanaethau cyfreithiol gan gyfreithiwr anonest, neu fel arall mae angen diogelu buddiannau'r cleientiaid.
- Gosod amodau ar dystysgrifau gwaith: atal cyfreithiwr unigol neu gwmni rhag delio ag arian cleientiaid, er enghraifft, neu weithredu fel rheolwr cwmni.
- Gosod gorchymyn adran 43: mae hyn yn atal pobl nad ydynt yn gyfreithwyr rhag gweithio mewn cwmni rydym yn ei reoleiddio heb ein caniatâd.

**Astudiaeth achos – cymryd camau brys**

Gwnaethom ymyrryd â chwmni oedd yn cynnig gwasanaethau ym maes cyfraith teulu, trawsgludo, profiant ac adennill dyledion, a'i gau. I ddechrau, fe wnaethom agor ymchwiliad i'r cwmni ar ôl cynnal adolygiad enghreifftiol o'i gyfrifon a chanfod prinder arian parod ac elfennau afreolaidd eraill o ran cyfrifyddu.

Fel rhan o'n hymchwiliad, gwelsom fod un o bartneriaid y cwmni wedi bod yn trosglwyddo arian o gyfrif banc cleientiaid i dalu am gostau rhedeg y cwmni. Honnodd y partner fod yr arian hwn yn ddyledus i'r cwmni fel taliad am ei wasanaethau. Nid oedd hyn yn wir. Roedd y partner wedi codi gormod ar gleientiaid ac wedi camarwain ein hymchwilydd ar y safle am y taliadau. Yn un o'r achosion, codwyd £23,500 ar gleient, pan oedd wedi cael dyfynbris o ychydig yn llai na £1,000 yn wreiddiol. Gwelsom brinder o £105,000 o leiaf yn y cyfrif cleientiaid.

Gwnaethom ymyrryd ar y sail bod gennym reswm dros amau anonestrwydd ar ran un o bartneriaid y cwmni a'u bod nhw, a'r partner arall yn y cwmni, wedi torri ein rheoliadau a'n Rheolau Cyfrifon.

Gwnaethom adennill mwy na £540,000 o gyfrif cleientiaid y cwmni a'i ddychwelyd i'w berchnogion. Gwnaethom sicrhau grantiau hefyd o'r gronfa iawndal gwerth cyfanswm o £435,000 i gleientiaid nad oedd modd i ni adennill eu harian. Roedd hyn yn cynnwys grantiau a wnaethpwyd i nifer o gleientiaid agored i niwed y codwyd gormod o ffioedd arnynt.

Roedd yr ymyriad yn caniatáu i ni gau'r cwmni wrth i ni gymryd camau i gyfeirio partneriaid y ddau gwmni at yr SDT. Yn dilyn yr atgyfeiriad, cafodd un partner ei ddileu oddi ar y Rhôl a chafodd y llall ei wahardd am flwyddyn. Cawsant orchymyn i dalu ein costau o £34,800 a £14,900, yn y drefn honno.

# Cyhoeddi sancsiynau a chytundebau setlo rheoleiddiol

Os bydd cwmni neu gyfreithiwr yn torri ein rheolau yn ddifrifol, gallwn roi cosb fewnol. Rydym yn gosod sancsiynau mewnol os ydynt yn ganlyniad priodol a chymesur i'r mater dan sylw.

Mae'r ystod o sancsiynau y gallwn eu gosod yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae ein pwerau dirwyo ar gyfer cyfreithwyr unigol wedi'u cyfyngu i £2,000, ac ni allwn ddileu cyfreithiwr oddi ar y Rhôl. Fodd bynnag, gallwn bennu dirwy o hyd at £250m ar ABS, a elwir hefyd yn gorff trwyddedig, a hyd at £50m ar reolwyr a chyflogeion ABS.

Lle y bo'n briodol, gallwn hefyd ddatrys mater drwy gytundeb setlo rheoleiddiol (RSA). O dan RSA, mae'r ddau barti yn cytuno ar y ffeithiau a'r canlyniad. Mae RSAs yn ein galluogi i ddiogelu defnyddwyr a budd y cyhoedd drwy gyrraedd canlyniadau priodol yn gyflym, yn effeithlon ac am gost gymesur.

Rydym yn cyhoeddi manylion ein canfyddiadau a'n sancsiynau, gan gynnwys RSAs, ar ein gwefan. Gallwn atal unrhyw faterion cyfrinachol rhag cael eu cyhoeddi, os oes angen ac os yw hynny'n briodol er budd y cyhoedd.

**Astudiaeth achos – yfed a gyrru**

Gwnaethom ymchwilio i fater ar ôl i gyfreithiwr ddweud wrthym ei fod wedi'i gael yn euog am yfed a gyrru. Cafodd ddirwy o £1,500 a'i wahardd rhag gyrru am 18 mis.

Gwnaethom weithredu yn unol â'n Strategaeth Orfodi a'n canllaw pwnc ar euogfarnau gyrru dan ddylanwad gormod o alcohol. Roedd yr euogfarn, y ddedfryd a lefel yr alcohol ar yr adeg pan oedd yn gyrru yn ffactorau gwaethygol. Y ffactorau lliniarol oedd mai dyma oedd trosedd gyntaf y cyfreithiwr ac nad oedd unrhyw hanes rheoleiddio perthnasol arall. Roedd y cyfreithiwr hefyd wedi penderfynu rhoi'r gorau i yrru erbyn i'r heddlu gyrraedd adeg y drosedd, gan ddangos ei fod wedi meddwl am ei weithredoedd. Ni achoswyd unrhyw ddifrod, a rhoddodd y cyfreithiwr wybod i ni am yr euogfarn ar unwaith.

Gan gydbwyso'r ffactorau hyn, roeddem o'r farn bod dirwy yn sancsiwn priodol, ac fe wnaethom ddefnyddio ein canllaw ar gosbau ariannol i benderfynu ar swm o £750. Cytunodd y cyfreithiwr i hyn ac ymdriniodd yr RSA â'r mater a'r ddirwy.

# Dod ag achosion gerbron y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr

Rydym yn erlyn yr achosion mwyaf difrifol yn yr SDT. Mae'n annibynnol arnom a gall osod ystod ehangach o sancsiynau na'r hyn y gallwn ni ei wneud.

Er enghraifft, gall osod dirwyon diderfyn, neu wahardd neu dynnu cyfreithiwr oddi ar y gofrestr cyfreithwyr, sy'n golygu na all weithio fel cyfreithiwr mwyach. Mae dadansoddiad llawn o'r sancsiynau y gallwn ni eu gosod a'r sancsiynau y gall yr SDT yn eu gosod i'w gweld yn atodiad 1. Yn 2018/19, fe wnaethom gyfeirio 125 o achosion i'r SDT, o'i gymharu â 134 yn 2017/18.

Wrth benderfynu a ddylid cyflwyno achos i'r SDT, rydym yn ystyried:

- p'un ai a oes gennym dystiolaeth a fyddai'n cefnogi posibilrwydd realistig y byddai'r SDT yn canfod camymddygiad
- p'un ai a yw'r SDT yn debygol o osod sancsiwn na allwn ni ei wneud
- a yw cyflwyno'r cais er budd y cyhoedd.

**Astudiaeth achos – cyflwyno achos gerbron yr SDT, aflonyddu rhywiol**

Fe wnaethom erlyn cyfreithiwr yn yr SDT ar ôl iddo gyfaddef, ar un achlysur, ei fod wedi cyffwrdd ag aelod o staff iau yn amhriodol ac, ar ail achlysur, wedi anfon negeseuon amhriodol at yr un aelod. Cafodd y cyfreithiwr rybudd gan yr heddlu am y negeseuon amhriodol. Ar y ddau achlysur, roedd y cyfreithiwr wedi gwneud hyn tra'r oedd dan ddylanwad alcohol.

Wrth ystyried y mater, penderfynodd yr SDT fod y cyfreithiwr wedi methu gweithredu mewn ffordd sy'n cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn ac wedi methu gweithredu'n onest. Ystyriodd hefyd y rhybudd a gafodd y cyfreithiwr a bod ei weithredoedd wedi cael effaith negyddol iawn ar yr aelod o staff iau.

Fodd bynnag, ystyriodd hefyd fod y cyfreithiwr wedi dangos edifeirwch ac wedi meddwl am ei weithredoedd, ei fod wedi cymryd camau ac wedi cael triniaeth i geisio sicrhau na fyddai'n ailadrodd ei weithredoedd, ac nad oedd y cyfreithiwr wedi yfed alcohol ers yr ail o'r ddau ddigwyddiad.

Gwaharddodd yr SDT y cyfreithiwr am 18 mis a gorchmynnodd iddo dalu bron i £8,000 mewn costau.

**Achosion gerbron yr SDT**

2017/18: 134 o achosion

2018/18: 125 o achosion

# Canlyniadau y cytunwyd arnynt

Os byddwn yn cyfeirio mater at yr SDT a'i fod yn dweud bod achos i'w ateb, a bod y cwmni neu'r unigolyn yn cyfaddef yr honiadau, efallai y byddai'n briodol cwblhau'r mater drwy ganlyniad y cytunwyd arno yn hytrach na thrwy wrandawiad llawn. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r cwmni neu'r unigolyn yn cyfaddef ac rydym yn cytuno ar ganlyniad sy'n seiliedig ar gyfres o ffeithiau, sancsiynau a chostau.


Mae canlyniadau y cytunwyd arnynt yn ein galluogi i ddiogelu defnyddwyr a budd y cyhoedd – yn gyflym, yn effeithlon ac am gost gymesur.

Mae'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn y tabl isod yn is-set o nifer cyffredinol yr achosion a gafodd eu cyfeirio at yr SDT yn ystod 2018/19 (125).

## Canlyniadau y cytunwyd arnynt 2018/19

Cafodd 33 o achosion eu datrys drwy ganlyniad y cytunwyd arno yn 2018/19, o'i gymharu â 37 yn 2017/18.[2] Arweiniodd yr achosion hyn at y sancsiynau yn y tabl isod. Sylwch, gall un achos arwain at fwy nag un sancsiwn.

Mae rhagor o wybodaeth am ystyr sancsiynau a'r camau y mae'r SDT yn eu cymryd ar gael yn yr eirfa ac atodiad 1.




[2] Oherwydd camgymeriad, gwnaethom gamadrodd canlyniadau y cytunwyd arnynt mewn blynyddoedd cynharach. Nifer y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn y blynyddoedd 2014/15, 2015/16 a 2016/17 oedd 5, 2 a 27, yn y drefn honno.

**Astudiaeth achos – canlyniad y cytunwyd arno, arian cleient ar goll**

Daethom i ganlyniad y cytunwyd arno gyda chyfreithiwr ar ôl canfod ei fod wedi defnyddio arian cleientiaid o wyth mater cleient gwahanol at ddefnydd personol a dibenion busnes digyswllt.

Roedd y cyfreithiwr wedi creu cyfrifon ystâd ffug i guddio'r ffaith ei fod yn trosglwyddo arian o'i gyfrif cleientiaid i gyfrif banc personol. Pan wnaethom ddechrau ymchwilio i'r mater ac arian y cleientiaid oedd ar goll, dywedodd y cyfreithiwr wrthym fod ad-daliad o £40,000 i'r cyfrif cleientiaid wedi dod o ad-daliad treth. Mewn gwirionedd, roedd wedi dod o fenthyciad trydydd parti. Roedd cyfanswm o tua £200,000 yn y cyfrif cleientiaid.

Yr oeddem yn honni anonestrwydd. Cyfaddefodd y cyfreithiwr hyn a derbyniodd mai'r canlyniad priodol yn dilyn y canfyddiad hwn oedd ei ddileu oddi ar y Rhôl. Yn ogystal â chael ei ddileu, gorchmynnodd yr SDT iddo dalu costau o £19,000.

# Y broses apelio

Mae hawliau apelio ar gael yn erbyn penderfyniadau a wnawn yn fewnol a phenderfyniadau y mae'r SDT yn eu gwneud.

## Apelio yn erbyn ein penderfyniadau

Mae gan gwmnïau ac unigolion sy'n ddarostyngedig i'n hamodau neu ein sancsiynau yr hawl i apelio. Mae apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau yn cael eu hystyried yn fewnol gan ein tîm Dyfarnu. Dim ond os nad ydynt wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad cychwynnol ac yn ystyried y mater am y tro cyntaf y bydd hyn yn digwydd. Gall partïon gael rhagor o hawliau apelio i naill ai'r SDT (yn achos dirwy, cerydd neu orchymyn adran 43) neu i'r Uchel Lys.

## Apelio yn erbyn penderfyniadau’r SDT

Gall cwmnïau a chyfreithwyr sy'n ddarostyngedig i'n penderfyniadau ni neu'r SDT gyflwyno apêl i’r llysoedd. Gallwn ninnau hefyd apelio yn erbyn penderfyniadau’r SDT yn y llysoedd. Mae'r hawl i apelio yn rhan sylfaenol o sicrhau cyfiawnder naturiol, proses gyfreithiol briodol a gweinyddu cyfiawnder.

Mae apeliadau yn caniatáu i lysoedd gywiro unrhyw wallau a allai fod wedi'u gwneud ac egluro sut mae'n dehongli’r gyfraith.

Wrth benderfynu a ddylid apelio yn erbyn penderfyniad y mae'r SDT yn ei wneud, mae sawl ffactor y byddwn yn eu hystyried. Er enghraifft:

- Gweithredu er budd y cyhoedd: rydym yn mynd ag achosion i'r SDT i egluro'r hyn rydym yn ei ystyried yn amhriodol, ac i atal cwmnïau a chyfreithwyr eraill rhag gweithredu mewn ffyrdd rydym yn eu hystyried yn anfoesegol neu a allai fod yn niweidiol i'r cyhoedd. Rydym hefyd am sicrhau bod y cyhoedd yn gallu parhau i ymddiried yn y proffesiwn.


- Diogelu'r cyhoedd: os ydym o’r farn bod y sancsiwn a osodwyd gan yr SDT yn rhy drugarog ac y gallai'r cyhoedd fod mewn perygl o ganlyniad, byddwn yn ystyried a yw apêl yn briodol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn apelio yn erbyn penderfyniad lle rydym yn credu y dylai cyfreithiwr fod wedi'i ddileu oddi ar y Rhôl, yn hytrach na'i wahardd am gyfnod byr.

- Eglurhad ar y gyfraith: os yw'r SDT yn gwneud penderfyniad a allai ymddangos fel pe bai'n gwrth-ddweud neu'n camddehongli pwynt cyfreithiol, byddwn yn ystyried a ddylem apelio. Y rheswm am hyn yw bod angen i ni sicrhau ein bod yn deall ein pwerau fel rheoleiddiwr, ac mae angen i'r bobl rydym yn eu rheoleiddio ddeall yr hyn y gallant ac na allant ei wneud. Hefyd, mae angen i ni wybod pryd y dylem weithredu a beth allai penderfyniadau tebygol yr SDT fod. Mae hyn yn ein helpu i ddefnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol.

Gall cwmni, cyfreithiwr neu rywun arall sydd wedi bod yn destun penderfyniad SDT apelio os yw'n credu bod y penderfyniad yn anghywir.

I apelio yn erbyn penderfyniad SDT, rhaid i ni neu'r ymatebydd wneud cais i'r Uchel Lys. Anaml y bydd apeliadau SDT yn mynd y tu hwnt i'r pwynt hwn.

## Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau ni[3]





## Penderfyniadau apêl allanol

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn y siart isod yn ymwneud ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau y mae'r SDT yn eu gwneud. Fodd bynnag, fel y soniwyd uchod, mae gan bartïon ragor o hawliau apelio i naill ai'r SDT neu i'r Uchel Lys. Mae'r siart isod yn cynnwys tri o'r mathau hyn o benderfyniadau.

[3] Yn yr adroddiad Cynnal Safonau Proffesiynol 2017/18, fe wnaethom adrodd 12 apêl aflwyddiannus a 2 apêl lwyddiannus. Mewn rhai achosion, gall y ffigurau hyn newid, er enghraifft, lle gofynnir am ailystyried ac y caniateir hynny

## Penderfyniadau apêl allanol 2017/18 a 2018/19




### Astudiaeth achos – apêl, anonestrwydd

Fe wnaethom ymchwilio a chyflwyno achos i'r SDT ar ôl canfod bod cyfreithiwr wedi derbyn £500 i'w gyfrif personol am fater perthnasol i gleient.  Nid oedd y cyfreithiwr wedi trosglwyddo'r arian i'w gwmni. Yna dywedodd wrthym nad oedd wedi derbyn taliad am y mater hwn i'w cyfrif banc personol. Gwelsom fod hyn yn anghywir ac yn gamarweiniol, ac yr oeddem yn honni anonestrwydd.

Yn y gwrandawiad, clywodd yr SDT dystiolaeth ac ystyriodd fod y cyfreithiwr wedi derbyn ffioedd am wasanaethau cyfreithiol yr oedd wedi'u cyflawni, ac y dylai'r arian am hynny fod wedi cael ei dalu i'r cwmni. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn. Wrth ystyried a oedd y cyfreithiwr wedi ein camarwain, roedd yr SDT yn cydnabod bod yr hyn a ddywedodd y cyfreithiwr yn anghywir ac yn gamarweiniol, a'i fod yn llawer is na'r safonau a ddisgwylid gan gyfreithiwr. Rhoddodd ddirwy o £10,000 i'r cyfreithiwr a gorchmynnodd iddo dalu ein costau.

Fodd bynnag, penderfynodd yr SDT fod y cyfreithiwr wedi gweithredu yn amhriodol, yn hytrach nag yn anonest.

Ac ystyried y dystiolaeth, gwnaethom apelio ar y sail bod y cyfreithiwr yn parhau i beri risg i'r cyhoedd a chleientiaid. Roeddem yn gofyn hefyd am eglurhad o'r gyfraith o ran penderfynu pan fydd rhywun yn bod yn anonest.

Cadarnhaodd yr Uchel Lys ein hapêl gan ddisodli'r penderfyniad ymddwyn yn amhriodol gydag ymddwyn yn anonest. Fe wnaeth hefyd ddileu'r cyfreithiwr oddi ar y Rhôl.

# Ein costau

Bob blwyddyn, rydym yn casglu ffioedd gwaith gan gyfreithwyr a chwmnïau'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr, a gan gyfreithwyr a chwmnïau'r gyfraith sy'n gweithio yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr dramor.

Mae'r ffioedd gwaith a gasglwn yn llawn, neu'n rhannol, yn ariannu chwe sefydliad, gan ein cynnwys ni. Yn 2018/19, casglwyd cyfanswm o £101m gennym, gyda £53.4m yn mynd tuag at ein gwariant cyffredinol.

Yn 2018/19, gwnaethom wario £15m ar ein prosesau disgyblu, sy'n rhan sylfaenol o'n gwaith i sicrhau safonau proffesiynol uchel. Er mai cynnydd bach yw hwn o'i gymharu â 2017/18, lle gwnaethom wario £14.6m, rydym wedi lleihau costau ein prosesau disgyblu yn raddol o £16.7m yn 2015/16.

Rydym yn parhau i adolygu sut rydym yn gweithio ac, er mwyn cadw trefn ar ein costau beth bynnag, rydym yn gweithio yn unol ag egwyddorion allweddol. Diben y rhain yw sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyflym, yn deg ac yn gymesur.

## Achosion gwerth uchel

Gall ein gwaith gorfodi fod yn uchel ei broffil ac mae'n aml yn ymwneud â materion amserol sydd o ddiddordeb ehangach i'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu y gall fod diddordeb mewn faint y mae'n ei gostio i ni ddod ag achosion gerbron yr SDT ac i gyflwyno apêl. Mae nifer o ffactorau sy'n effeithio ar hyn.
Mae'r rhain yn cynnwys cymhlethdod a hyd oes achos a nifer a chydweithrediad y rhai sy'n rhan o’r achos.

## Achosion a gostiodd fwy na £100,000 yn 2018/19

O'r 125 o achosion y gwnaethom eu cyflwyno i’r SDT yn 2018/19 a'r 20 apêl a wrandawyd, roedd pump lle'r oedd ein costau'n fwy na (tua) £100,000. Yn gyffredinol, bydd y costau yn yr achosion hyn wedi cronni dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r ffigurau'n cynnwys y costau a hawliwyd (neu y cytunwyd arnynt) ar gyfer:

- cyflwyno’r achos gerbron yr SDT
- cyflwyno apêl, os oedd un
- costau a ddyfarnwyd i'r parti sy'n gwrthwynebu.

Yn gyffredinol, mae costau cyflwyno achos yn cynnwys:

- ein gwaith wrth ymchwilio i achos
- paratoi ar gyfer gwrandawiadau gerbron yr SDT a'r Uchel Lys, boed hynny'n fewnol neu drwy gyfarwyddo cwmni panel
- cyngor gan gwnsler neu gyfarwyddyd iddo pan fydd ein tîm cyfreithiol mewnol yn ymdrin ag achos.

Yn rhai o'r achosion hyn, dyfarnodd yr SDT rywfaint o’r costau i ni neu’r cyfan ohonynt.

## Achosion a gostiodd fwy na £100,000 yn 2018/19

| Partïon dan sylw | Costau'r achos | Natur yr achos a'r canlyniad terfynol |
|---|---|---|
| Roedd Alexis Maitland Hudson, a oedd, ar adeg yr honiadau, yn gweithio i gwmni Ffrengig, Cabinet Maitland Hudson.<br><br>Roedd Hudson hefyd yn bartner yn Maitland Hudson and Co yn Llundain. Ni wnaethom gymryd camau yn erbyn y naill gwmni na'r llall.<br><br>Cyflwynwyd apêl yn yr Uchel Lys yn yr achos hwn. | £677,000 ar draws gwrandawiadau'r SDT (£603,000) a'r Uchel Lys (£74,000).<br><br>Dyfarnodd yr SDT £358,000 i ni.<br><br>Dyfarnodd yr Uchel Lys £56,000 i ni. | Honiadau ynghylch gwrthdaro buddiannau mewn trafodyn masnachol. Fe wnaeth yr SDT ddileu'r cyfreithiwr oddi ar y rhôl.<br><br>Gwrthodwyd yr apêl a gyflwynwyd gan Hudson gan yr Uchel Lys. |
| Dau gyfreithiwr: Eric Evans a David Alan Whiteley, partneriaid cwmni M&A Solicitors yng Nghaerdydd (ni wnaethom ddwyn achos yn erbyn y cwmni). | £225,561<br><br>Dyfarnodd yr SDT £50,000 i ni. | Honiadau ynghylch gwrthdaro buddiannau mewn trafodyn eiddo.<br><br>Daeth y mater i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno. Cafodd y ddau gyfreithiwr ddirwy o £10,000 yr un gan y SDT. |
| Dau gyfreithiwr: Jonathan De Vita a Christopher Platt, a oedd yn bartneriaid yn y cwmni cyfreithiol De Vita Platt, a hyfforddai yn y cwmni, Emily Scott. Gwnaethom ymyrryd â'r cwmni cyfreithiol yn 2018. | £145,533<br><br>Dyfarnodd yr SDT y costau yn llawn i ni. | Honiadau gan gynnwys ffugio dogfennau, codi biliau am waith na chafodd ei gyflawni, ac achosion eraill o dorri ein Rheolau Cyfrifon.<br><br>Cafodd y tri eu dileu oddi ar y Rhôl gan yr SDT. |
| Dau gyfreithiwr: Ehsan Kabir a Lauren Ruth Anderson, cyfranddalwyr cyfartal mewn cwmni gyda Lauren Ruth Anderson fel unig gyfarwyddwr ac Ehsan Kabir fel cyflogai i'r cwmni. | £111,221<br><br>Dyfarnodd yr SDT £77,700 i ni. | Materion yn ymwneud â rhedeg cwmni'n briodol a rhoi gwybodaeth gamarweiniol i ni. Fe wnaeth yr SDT ddileu Ehsan Kabir oddi ar y rhôl a |

| Partïon dan sylw | Costau'r achos | Natur yr achos a'r canlyniad terfynol |
|---|---|---|
| | | gwahardd Lauren Ruth Anderson a rhoi amodau gwaith iddi. |
| Colin Ross Downie | £102,952<br><br>Cafodd yr achos ei ddatrys drwy ganlyniad y cytunwyd arno, lle cytunwyd ar gostau o £20,833. | Honiadau bod y cyfreithiwr wedi camddefnyddio gwahanol gynlluniau ariannu.<br><br>Tynnodd yr SDT y cyfreithiwr oddi ar y Rhôl. |

Nodwch, nid ydym wedi cynnwys achosion sy'n destun apêl.

# Lles yn y proffesiwn cyfreithiol

Gwyddom y gall gweithio ym maes y gyfraith fod yn heriol a’ch rhoi dan straen.

Pan fydd y straen hwn yn cael effaith negyddol ar waith cyfreithiwr neu gwmni, gall effeithio ar gymhwysedd ac arwain at gamgymeriadau ac, o bosibl, achosion difrifol o dorri ein safonau, megis anonestrwydd. Gall hyn ein harwain i gymryd camau, y gellir eu hosgoi os bydd cyfreithwyr yn adnabod yr arwyddion rhybudd yn gynnar ac yn gofyn am y gefnogaeth a'r cymorth cywir.

**Ceisio cymorth**

Rydym yn deall y gall bod yn rhan o ymchwiliad fod yn gyfnod anodd a brawychus, yn enwedig i bobl â phroblemau iechyd, neu sydd mewn sefyllfa fregus. Os felly, rydym yn annog pobl i siarad â'u cyswllt SRA, gan fod camau y gallwn eu cymryd i wneud y broses yn haws. Dyma rai enghreifftiau o sut y gallwn gynnig cymorth:

- darparu un pwynt cyswllt
- caniatáu amser ychwanegol i ymateb i ni (lle gallwn)
- oedi ymchwiliad am dymor byr.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac rydym yn ymdrin â phob mater yn seiliedig ar ei amgylchiadau. Efallai y bydd angen cymorth ar aelodau o'r cyhoedd a chyfreithwyr sy'n codi pryderon gyda ni hefyd, yn enwedig pan fyddant mewn sefyllfa fregus. Rydym yn cyfeirio pobl at amrywiaeth o adnoddau a sefydliadau a all helpu, ac mae ein holl staff yn cael hyfforddiant ar wneud addasiadau rhesymol.

Er mwyn helpu cyfreithwyr a chwmnïau i ddeall sut rydym yn ymdrin â materion iechyd a'r dystiolaeth feddygol y gallem ofyn amdani yn ystod ymchwiliad, cyhoeddwyd ein canllaw materion iechyd a thystiolaeth feddygol ym mis Awst 2020. Mae’n cynnwys gwybodaeth am godi mater iechyd gyda ni, adroddiadau meddygol, iechyd a'r gallu i ymarfer, ymhlith pynciau cysylltiedig eraill.

## Ein hymrwymiad ehangach i les yn y proffesiwn

Fe wnaethom lansio ein hymgyrch Eich Iechyd, Eich Gyrfa yn 2016 i annog cyfreithwyr i siarad â ni os ydynt yn cael anawsterau gyda'u hiechyd neu eu lles a allai fod yn effeithio ar eu gwaith. Gall cyfreithwyr siarad â ni am hyn a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am ein rheoliadau a'r problemau y maent yn eu hwynebu.

## Chwythu’r chwiban i'r SRA

Os darperir gwybodaeth i ni yn gyfrinachol, byddwn yn cymryd camau priodol i ddiogelu hunaniaeth y gohebydd ac yn ymdrin â'r mater mewn modd sensitif.

Rhaid i unigolion a chwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio roi gwybod i ni am faterion beth bynnag. Fodd bynnag, i rywun sy'n cael ei reoleiddio gennym ni ac sy'n poeni a ellir ymchwilio iddynt am eu rhan nhw eu hunain mewn unrhyw gamweddau, gallai adrodd ar y materion a chydweithio â ni liniaru hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae materion yn cael eu hadrodd i ni yn gynnar. Fodd bynnag, byddai'n well gennym i gyfreithwyr ac eraill sy'n gweithio yn y sector cyfreithiol ddarparu gwybodaeth yn hwyr na pheidio â'i rhannu o gwbl. Er na allwn sicrhau na fyddwn yn cymryd unrhyw gamau yn erbyn y gohebydd, mae

dod â'r wybodaeth atom yn debygol o helpu ei sefyllfa, a byddwn yn ystyried cyd-destun, gan gynnwys, er enghraifft, ofn wynebu cyhuddiad arall.

# Cefnogi tystion

Pan fyddwn yn ymchwilio i gyfreithiwr neu gwmni, efallai y bydd angen cymryd datganiad neu gyfweld â thystion. Bydd hyn yn ein helpu yn ein hymchwiliad ac, o bosibl, i benderfynu a oes angen i ni gyfeirio'r mater at yr SDT.

Rydym yn deall y gall hyn beri gofid, felly rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi tystion. Er enghraifft, os nad Saesneg yw iaith gyntaf y tyst, efallai y gallwn gynnig cyfieithydd neu ddehonglwr. Os mai'r tyst hefyd yw'r sawl a roddodd wybod am y pryder i ni, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am y ffordd yr ydym yn symud ymlaen â'r mater. Rydym hefyd yn hyfforddi ein staff ar sut i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed a gofidus, er enghraifft, mewn achosion sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol.

# Monitro amrywiaeth

Rydym yn cymryd ein hymrwymiad i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) o ddifrif. Fel rhan o hyn, rydym wedi gwneud cynnydd da yn ystod y blynyddoedd diwethaf i hyrwyddo EDI yn y proffesiwn cyfreithiol, datblygu a chefnogi ein gweithlu ein hunain a sefydlu ystyriaethau EDI yn yr holl waith a wnawn.

Rhan hanfodol o ymgorffori EDI yn y gwaith a wnawn yw adolygu ein systemau a'n prosesau i sicrhau nad ydynt yn cynnwys rhagfarn na gwahaniaethu. Rydym yn gwneud hyn nid yn unig gan fod gennym ddyletswydd gyhoeddus i wneud hynny, fel y nodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol, ond oherwydd mai dyna'r peth iawn i'w wneud.

Eleni, mae ein hadroddiad Cynnal Safonau Proffesiynol yn edrych ar nodweddion amrywiaeth y bobl sy'n ymwneud â'n prosesau gorfodi. Er ei fod yn ymarfer blynyddol yn y gorffennol, gwnaethom oedi gyda’r adroddiad hwn yn 2015 oherwydd y ffocws cynyddol ar rôl cwmnïau'r gyfraith o ran cynnal safonau proffesiynol uchel. Roedd hyn yn golygu ein bod yn cofnodi cyfran gynyddol o'n gwaith gorfodi yn erbyn cwmnïau, yn hytrach nag unigolion. Roedd hyn, a'r gostyngiad yn nifer y cyfreithwyr newydd sy'n darparu eu data amrywiaeth i ni drwy ein porth ar-lein (ar ôl i ni symud i broses dderbyn ar-lein), yn golygu bod monitro amrywiaeth unigolion yn ein gwaith gorfodi yn her.

Rydym bellach wedi ailddechrau'r gwaith monitro hwn ac, i wneud hynny, wedi cynnal adolygiad â llaw sy'n defnyddio llawer o adnoddau o'r adroddiadau a gawsom yn 2018/19 i nodi gwybodaeth am yr unigolion dan sylw. Bydd y systemau a’r prosesau newydd rydym yn eu rhoi ar waith yn ein galluogi i echdynnu a dadansoddi data am ein penderfyniadau gorfodi yn well yn y dyfodol.

Mae'r bennod hon yn esbonio'r gwaith rydym wedi'i wneud, y canfyddiadau allweddol a'r camau nesaf, gyda'r dadansoddiad manwl wedi'i gyhoeddi mewn adroddiad ategol, ar wahân..

## Canfyddiadau o adroddiadau monitro amrywiaeth blaenorol

Rydym wedi bod yn ymwybodol o batrymau sy'n dangos gormod o gynrychiolaeth o rai grwpiau yn ein prosesau gorfodi ers rhai blynyddoedd, yn enwedig o ran dynion a phobl o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (BAME). Mae'r data o 2018/19 yn dangos darlun weddol debyg, o ran y pryderon a gawsom a’r ymchwiliadau y gwnaethom fwrw ymlaen â nhw.

Rydym wedi comisiynu sawl adolygiad allanol i edrych ar hyn, gan adeiladu ar waith a wnaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr yn 2006 cyn sefydlu'r SRA. Y diweddaraf oedd Adolygiad Achos Cymharol Annibynnol (ICCR) yr Athro John a gyhoeddwyd yn 2014. Cyn hynny, fe wnaethom gomisiynu Pearn Kandola i adolygu ein data penderfyniadau rheoleiddio yn 2010, a argymhellodd yr Arglwydd Herman Ouseley yn ei adroddiad am yr un materion, a gyhoeddwyd yn 2008. Ni chanfu'r un o'r adolygiadau unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu, ond tynnodd pob adolygiad sylw at orgynrychioli ymysg grwpiau penodol a darparodd argymhellion i ni ac eraill, sydd wedi helpu i lywio ein dull gorfodi.

Wrth ymateb i ormod o gynrychiolaeth o gyfreithwyr BAME, cawsom fudd o sylwadau’r Athro John ar rai o'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar broffil y cyfreithwyr BAME a gyfeiriwyd atom (megis eu bod yn fwy tebygol o weithio mewn cwmnïau bach, a sefydlu arferion unigol ar ôl dim ond ychydig flynyddoedd o ennill eu cymwysterau, er enghraifft). Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, gan ein bod

wedi llunio ein rhaglen o ddiwygio rheoleiddiol. Ar ben hynny, rydym wedi gwneud cynnydd ar amrywiaeth o gamau gweithredu arfaethedig i weithredu'r ymrwymiadau a wnaethom yn dilyn yr ICCR, gan gynnwys adolygiad o'n meini prawf gwneud penderfyniadau a datblygu prosesau gwell yn ein gwaith ymchwilio a gorfodi. Rydym wedi cyhoeddi adolygiad o'r gwaith rydym wedi'i wneud ers yr ICCR.

Ar ddiwedd y bennod hon, rydym yn nodi'r gwaith y byddwn yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd o'n dadansoddiad diweddaraf. Gan nad yw'r materion yn unigryw i ni na'r sector cyfreithiol, un o'r camau gweithredu yw comisiynu ymchwil annibynnol sy'n edrych ar rai o'r materion ehangach sy'n dylanwadu ar orgynrychioli ymysg unigolion BAME yn y pryderon a adroddwyd i ni.

Er mai ychydig iawn o reoleiddwyr sydd wedi cyhoeddi proffil yr amrywiaeth o bobl yn eu prosesau disgyblu, mae gwybodaeth ar gael gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)[4], y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)[5], a Bwrdd Safonau'r Bar (BSB)[6]. Mae rhai, fel y GMC[7], wedi mynd ymlaen i gynnal dadansoddiad ac ymchwil i'r adroddiadau maent yn eu cael sy'n cynnwys gormod o weithwyr proffesiynol BAME. Mae'n amlwg o'r ymchwil hon bod y materion yn gymhleth ac yn cynnwys sawl elfen. Byddwn yn ystyried profiad rheoleiddwyr eraill yn y sector cyfreithiol, a thu hwnt, i ddeall yr hyn sy'n digwydd ac i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r patrymau eang a pharhaus hyn.

## Cwmpas ein dadansoddiad

Fe wnaethom edrych ar gynrychiolaeth rhyw, ethnigrwydd, oedran ac, mewn rhai meysydd lle'r oedd y niferoedd yn ddigonol, anabledd unigolion ar y camau canlynol o'n proses orfodi ar gyfer y flwyddyn 2018/19:

- cam 1: unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni
- cam 2: unigolion a enwyd ar bryderon y gwnaethom eu datblygu ar gyfer ymchwiliad
- cam 3: unigolion a enwyd ar achosion â sancsiwn mewnol a'r mathau o sancsiynau a osodwyd gennym (llwybr A)
- cam 4: yr achosion a ddaeth i ben yn yr SDT drwy wrandawiad neu ganlyniad y cytunwyd arno, a'r mathau o sancsiynau a osododd yr SDT (llwybr B).

Mae'r unigolion a gyfrifwyd yng ngham 2 (unigolion a enwyd ar bryderon a ddatblygwyd ar gyfer ymchwiliad yn 2018/19) yn is-set o gam 1 (yr unigolion a enwyd ar y pryderon a adroddwyd i ni yn 2018/19). Yng nghamau 3 a 4, rydym yn cyfrif yr unigolion a enwyd ar achosion a gafodd sancsiwn mewnol neu a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT yn 2018/19. Er y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr unigolion sy'n ymwneud â chamau 1 a 2 a'r rhai sy'n ymwneud â cham 3 yn yr adroddiad hwn ar gyfer 2018/19, mae'n annhebygol o fod yn sylweddol. Y rheswm am hyn yw nad yw achosion bob amser yn cael eu derbyn a'u cwblhau yn yr un flwyddyn. Yn yr un modd, mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw orgyffwrdd rhwng yr unigolion sy'n gysylltiedig â chamau 1 a 2 a'r rhai sy'n ymwneud â cham

---

[4] GMC, Dadansoddiad o achosion sy'n arwain at wahardd neu ddileu meddygon oddi ar y gofrestr feddygol, 2014
[5] The Parmaceutical Journal, Cyfran 'bryderus' o fferyllwyr lleiafrifoedd ethnig wedi'u gwahardd neu eu dileu oddi ar gofrestr y GPhC, 2019
[6] BSB, Cwynion yn y Bar: Dadansoddiad o ethnigrwydd a rhyw 2012-2014, Ionawr 2016
[7] GMC, Teg cyfeirio, 2019

4. Y rheswm am hyn yw ei bod yn cymryd mwy na blwyddyn i ymchwilio, cyfeirio a chwblhau mater yn yr SDT.

Gan ddechrau gyda dadansoddiad o'r boblogaeth wrth ei gwaith, rydym wedi cymharu cyfrannau pob grŵp amrywiaeth ar wahanol gamau o'n proses orfodi. Er enghraifft, mae dynion yn cynnwys:

- 49% o'r boblogaeth wrth ei gwaith
- 67% o'r unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni (cam 1)
- 73% o'r unigolion y gwnaethom fwrw ymlaen i ymchwilio iddynt (cam 2)
- 70% o'r unigolion a enwyd ar achosion gyda sancsiwn mewnol (cam 3, llwybr A)
- 85% o'r unigolion a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (cam 4, llwybr B).

Mae nifer yr unigolion yn mynd yn llai ar bob cam o'r broses, gan ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau pendant yng nghamau 3 a 4. Yn gyffredinol, roedd:

- 6,860 o unigolion a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni yn 2018/19 (cam 1)
- 2,579 o unigolion wedi cael eu symud ymlaen i gael eu harchwilio (cam 2)
- 297 a enwyd ar achosion â sancsiwn mewnol (cam 3)
- 144 a enwyd ar achosion a ddaeth i ben yn yr SDT (cam 4).

Mae ein dadansoddiad yn edrych ar y boblogaeth hysbys ymhlith y grwpiau hynny – hynny yw, y bobl y mae gennym wybodaeth am amrywiaeth amdanynt. Ar gyfer rhyw ac oedran, mae gennym wybodaeth ar gyfer 97% a 99% o'r boblogaeth wrth ei gwaith, yn y drefn honno, a 76% ar gyfer ethnigrwydd. Oherwydd y ffordd rydym wedi casglu data anabledd yn y gorffennol[8], dim ond cyfran y bobl sydd wedi datgan anabledd y gallwn ei nodi, sef 1% o'r boblogaeth wrth ei gwaith.

Mae set lawn o'r siartiau sy'n dangos y data ym mhob un o'r camau yn adroddiad ategol ein canfyddiadau, gan gynnwys, lle mae digon o ddata ar gael, dadansoddiad o'r gwahanol sancsiynau a wnaethom ni, a'r rhai a wnaeth yr SDT. Rydym hefyd wedi edrych ar sut mae'r achosion yn yr SDT wedi'u cwblhau, yn enwedig p'un ai a oes gwahaniaeth yn ôl nodwedd amrywiaeth yn y defnydd o ganlyniadau y cytunwyd arnynt ai peidio. Rydym wedi darparu cyfraddau'r datganiad amrywiaeth ar bob cam.

Bydd canfyddiadau ein gwaith monitro amrywiaeth o'r bobl yn ein gwaith gorfodi yn dod yn nodwedd reolaidd o'r adroddiad hwn wrth symud ymlaen. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro tueddiadau'r dyfodol a gwerthuso effaith ein Strategaeth Orfodi newydd, yn ogystal â'n Safonau a'n Rheoliadau, a gyflwynwyd yn 2019.

## Canfyddiadau allweddol 2018/19

Nodir canfyddiadau manwl yng nghyswllt camau 1 i 4, fel y disgrifir uchod, yn adroddiad ategol o'n canfyddiadau, ynghyd â dadansoddiad o'r boblogaeth wrth ei gwaith.

[8] Cyn hyn, dim ond os oedd ganddynt anabledd roeddem yn gofyn i bobl nodi hynny. Ni wnaethom roi dewis i bobl ddweud nad oedd ganddynt neu os oedd yn well ganddynt beidio â dweud wrthym.

Gwyddom o'n dadansoddiad o amrywiaeth mewn cwmnïau cyfreithiol fod y proffesiwn wedi mynd yn fwy amrywiol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o fenywod na dynion bellach ymhlith cyfreithwyr sydd newydd gymhwyso, ac un o bob pum cyfreithiwr mewn cwmnïau cyfreithiol yn dod o gefndir BAME. Er bod hyn yn galonogol, mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos bod heriau yn wynebu gwahanol grwpiau yn y proffesiwn, sydd, fel y nododd yr Athro John, yn debygol o effeithio ar broffil y rhai a adroddwyd i ni.

Er enghraifft, mae cyfreithwyr BAME yn cael eu gorgynrychioli ymhlith ymarferwyr unigol (39%), yn cael eu gorgynrychioli mewn cwmnïau sy'n gwneud gwaith cleientiaid troseddol a phreifat yn bennaf (33% a 40%, yn y drefn honno) a heb ddigon o gynrychiolaeth yn y cwmnïau sy'n gwneud gwaith corfforaethol (15%). Mae'r rhain yn ffactorau y byddwn yn eu hystyried yn yr ymchwil a amlinellir ar ddiwedd y bennod hon am broffil y rhai a adroddwyd i ni.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r data sydd gennym yn ein systemau fel man cychwyn ar gyfer dadansoddi sut mae proffil pobl yn newid drwy ein prosesau gorfodi.


## Rhyw

Mae gormod o ddynion yn cael eu cynrychioli drwy gydol ein proses orfodi, gyda thua 70:30 o ddynion i fenywod yng nghamau 1 i 3. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth wrth ei gwaith o 49:51, dynion i fenywod. Gwelir y gorgynrychioli yn gyffredinol hefyd yn y gwahanol fathau o sancsiynau mewnol.

Fodd bynnag, mae cyfran y dynion yn cynyddu i 85% wrth edrych ar gam 4, yr achosion a ddaeth i ben yn yr SDT, gyda gostyngiad cyfatebol ymysg menywod. Nid oes gorgynrychioli wrth gymharu'r unigolion a enwir ar achosion a gwblhawyd mewn gwrandawiad a'r rhai a ddaeth i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno.

O ran y sancsiynau a osodwyd gan yr SDT, mae canran y dynion a'r menywod a gafodd ddirwy (85% a 15%, yn y drefn honno) yr un fath â'r rhai a enwir ar achosion. Mae cyfran y dynion yn is na’r disgwyl ymhlith y rhai a gafodd eu gwahardd (50%) ac yn uwch i'r rhai a gafodd eu dileu oddi ar y Rhôl (92%). Fodd bynnag, mae nifer y bobl a gafodd eu gwahardd yn arbennig o fach (12), sy'n ei gwneud yn anodd dod i gasgliad o'r data hwn.

**Dadansoddiad rhyw o'r boblogaeth wrth ei gwaith ac yng nghamau 1-4 ein proses orfodi**




## Ethnigrwydd

Rydym yn cydnabod na fydd profiad grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned BAME yr un fath, ond, ar gyfer rhannau o'r adroddiad hwn, mae'r niferoedd yn rhai o'r grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned BAME yn rhy fach i'w hadrodd ar wahân, gan y gallai hynny arwain at risg y byddai modd adnabod unigolion. Mae hyn yn golygu y bydd rhywfaint o'r data ethnigrwydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer y grŵp BAME yn ei gyfanrwydd. Mae'r un peth yn wir am y grwpiau sy'n ffurfio'r grŵp gwyn. Dyna pam, yn y siart trosolwg isod, mai dim ond y grwpiau BAME a gwyn a ddangosir. Mae dadansoddiad manylach ar gael yn yr adroddiad ategol <https://www.sra.org.uk/sra/how-we-work/reports/2018-19-review/upholding-professional-standardssupporting-report/>.

Mae'r grŵp BAME, yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys 18% o'r boblogaeth wrth ei gwaith a 26% o'r unigolion a gafodd eu hadrodd i ni. Mae hyn yn codi i 32% o'r rhai y symudwyd eu hachosion ymlaen ar gyfer ymchwiliad yng ngham 2.

Unigolion Asiaidd a du yw 12% a 3% o'r boblogaeth wrth ei gwaith, yn y drefn honno, ac eto maent yn cael eu gorgynrychioli wrth edrych ar nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd i ni (cam 1), ar 18% a 4%.


Mae canran yr unigolion BAME yng ngham 3 ac yng ngham 4 yn 35%. Yng ngoleuni'r niferoedd bach o bobl sy'n gysylltiedig yng nghamau 3 a 4, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn wahaniaeth ystadegol dilys o'r 32% yr ymchwiliwyd iddynt yng ngham 2.

O edrych ar y mathau o sancsiynau mewnol a rhai'r SDT, mae'r niferoedd yn fach iawn, gan ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau o'r canfyddiadau. O'i gymharu â'r dadansoddiad o unigolion BAME a enwir ar achosion gyda sancsiwn mewnol (35%), mae cyfran is yn y mathau mwyaf difrifol o sancsiynau (ceryddon a dirwyon) ar 30%, ac yn y canlyniadau lleiaf difrifol (llythyrau cyngor a chanfyddiadau a rhybuddion) ar 33%. Unwaith eto, mae'r niferoedd bach yn golygu nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol.

O ran y sancsiynau a osodir gan yr SDT, o ystyried bod unigolion BAME yn cynnwys 35% o'r rhai y mae eu hachosion wedi'u cwblhau yn yr SDT, cânt eu cynrychioli'n gymesur ymhlith y rhai a gafodd ddirwy (34%), ac mae cyfran is ymhlith y rhai a gafodd eu dileu oddi ar y Rhôl (31%). Mae cyfran uwch o unigolion BAME ymhlith y rhai a gafodd eu gwahardd (45%), ond, unwaith eto, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau o hyn, gan mai dim ond 11 o unigolion oedd yn y grŵp hysbys a gafodd eu gwahardd.

Mae cyfran lai o unigolion BAME wedi'u henwi ar achosion a gafodd eu datrys yn yr SDT drwy ganlyniad y cytunwyd arno o'i gymharu â'r rhai a gafodd eu datrys drwy wrandawiad. Mae'r gyfran yn gostwng o 40% (38 allan o 94 o bobl) a enwyd ar benderfyniadau SDT a gafodd eu datrys drwy wrandawiad i 17% (pump o bob 30 o bobl) a gwblhaodd eu hachos drwy ganlyniad y cytunwyd arno. Unwaith eto, dylid nodi bod y niferoedd bach iawn ar gyfer y categorïau hyn yn ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau o'r canfyddiadau hyn.

**Dadansoddiad ethnigrwydd o'r boblogaeth wrth ei gwaith ac yng nghamau 1–4 ein proses orfodi**




## Oedran

Yn y siart hwn, rydym wedi grwpio'r categorïau oedran 16-24 oed a 25-34 oed gyda'i gilydd. Y rheswm am hyn yw bod nifer y bobl ifanc 16-24 oed a enwyd ar adroddiadau yng nghamau 1 a 2 yn rhai enwol, ac nid oedd unrhyw bobl ifanc 16-24 oed wedi'u henwi ar achosion gyda sancsiwn mewnol neu wedi'u cwblhau yn yr SDT.

Nid oes digon o gynrychiolaeth o bobl yn y categorïau oedran iau (44 ac iau) a enwyd ar bryderon a adroddwyd i ni o’i gymharu â chyfran eu poblogaeth wrth ei gwaith. Mae'r gwrthwyneb yn wir am y rhai yn y categorïau oedran hŷn (45 oed a throsodd) sy'n cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith.


Wrth edrych ar achosion sy'n ymwneud ag unigolion yr aethpwyd ymlaen i ymchwilio iddynt, nid oes fawr o wahaniaeth i unrhyw un o'r grwpiau oedran.

Ar gyfer pob grŵp oedran, mae canran yr unigolion a enwir ar achosion â sancsiwn mewnol (cam 3) yn gymesur i raddau helaeth â'r rhai y symudwyd eu hachosion ymlaen ar gyfer ymchwiliad (cam 2).

Ar gyfer pob grŵp oedran, mae canran y rhai y daeth eu hachosion i ben yn yr SDT (cam 4) yn gymesur i raddau helaeth â'r rhai y symudwyd eu hachosion ymlaen ar gyfer ymchwiliad (cam 2), gyda rhai gwahaniaethau bach ar gyfer y grwpiau ieuengaf a hynaf. Roedd y rhai o dan 34 oed yn cynnwys 11% o'r achosion yr ymchwiliwyd iddynt a daeth 9% o'r rheini i ben yn yr SDT. Roedd y rhai 65 oed a throsodd yn cynnwys 10% o'r pryderon a symudwyd ymlaen ar gyfer ymchwiliad a daeth 13% o'r achosion i ben yn yr SDT.

Mae cyfran lai o unigolion 45–54 oed wedi'u henwi ar achosion a ddaeth i ben drwy ganlyniad y cytunwyd arno o'i gymharu â'r rhai a gwblhawyd gan wrandawiad, sy'n gostwng o 34% i 24%. Mae'r gwrthwyneb yn wir am unigolion 65+ oed, gan gynyddu o 10% i 21%.

Fodd bynnag, nid oes patrwm clir ac mae'r niferoedd yn rhy fach i ddod i unrhyw gasgliadau o'r canfyddiadau wrth ystyried y mathau mewnol ac allanol o sancsiynau ar draws categorïau oedran.





## Anabledd

Oherwydd y niferoedd bach iawn dan sylw, dim ond ar gamau 1 a 2 y gallwn adrodd am nifer y bobl anabl sy'n ymwneud â'n prosesau gorfodi. Er hynny, rydym yn gweld gorgynrychioli ymysg unigolion anabl mewn pryderon sy'n cael eu hadrodd i ni o'u cymharu â'r boblogaeth wrth ei gwaith. Roedd 141 o unigolion anabl wedi'u henwi ar y pryderon a gawsom (2% o'r cyfanswm) o'i gymharu ag 1% yn y boblogaeth wrth ei gwaith.

O'r rhai a enwyd ar y pryderon a adroddwyd i ni, cafodd achosion 62 o bobl anabl eu symud ymlaen ar gyfer ymchwiliad (2% o gyfanswm nifer yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt).

Mae angen i gyfraddau datgan ar gyfer anabledd wella cyn y gallwn ddod i unrhyw gasgliadau ystyrlon o'r data.

**Anabledd a nodwyd ymhlith y boblogaeth wrth ei gwaith ac yng nghamau 1-2 ein proses orfodi**




## Gwaith ac ymchwil pellach

Byddwn yn adeiladu ar ganfyddiadau 2018/19, sydd wedi rhoi llinell sylfaen i ni ar gyfer gwaith monitro yn y dyfodol ac a fydd yn rhan o gynlluniau ehangach ar gyfer gwerthuso effaith ein Strategaeth Orfodi newydd a'n Safonau a'n Rheoliadau newydd.

Mae mwy y gallwn ei wneud bob amser i sicrhau bod ein penderfyniadau'n gyson, yn deg ac nad ydynt yn cynnwys rhagfarn. Yn ogystal â'r gwaith parhaus rydym wedi'i nodi yn ein strategaeth gorfforaethol a'n cynllun busnes, byddwn yn bwrw ymlaen ag ystod o waith mewn ymateb i'r canfyddiadau a nodir yn y bennod hon:

- Byddwn yn comisiynu ymchwil annibynnol i'r ffactorau sy'n llywio'r gwaith o adrodd am bryderon am gyfreithwyr BAME i ni, i nodi'r hyn y gallwn ei wneud ynglŷn â hyn a ble y gallwn weithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth.
- Ochr yn ochr â'n gwaith parhaus i sefydlu tîm sicrhau ansawdd 'hyd braich' mewnol, byddwn yn cynnal adolygiad ymlaen llaw o benderfyniadau yn ein proses asesu a datrys yn gynnar, lle y penderfynir cyfeirio mater ar gyfer ymchwiliad.
- Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer yr unigolion sy'n datgelu gwybodaeth am eu nodweddion amrywiaeth i ni.
- Byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar broffil pobl yn ein prosesau gorfodi ac yn cynnwys dadansoddiad rhyngadrannol lle y gallwn.
- Byddwn yn gwerthuso'r newidiadau rydym wedi'u gwneud drwy ein rhaglen diwygio rheoleiddiol, gyda deall yr effeithiau ar EDI yn rhan allweddol o'r gwaith hwnnw.
- Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein gwaith ehangach i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth yn y proffesiwn a'n gwaith parhaus i gefnogi cydymffurfiaeth cwmnïau bach.

# Atodiad 1: Y camau rydym ni'n eu cymryd a'r camau y mae'r SDT yn eu cymryd

| Y camau a gymerwyd ac o dan ba amgylchiadau | Lefel y camymddygiad | Ein sancsiwn | Sancsiwn yr SDT |
|---|---|---|---|
| **Llythyr cyngor:** rydym yn atgoffa'r unigolyn neu'r cwmni yn ysgrifenedig o'i gyfrifoldebau rheoleiddio. | Mân neu lle mae cwmni wedi rheoli mater yn briodol | ☑ | ☒ |
| **Rhybuddio:** rhybuddio unigolyn neu gwmni, petai'r ymddygiad yn cael ei ailadrodd, neu petai’r sefyllfa'n parhau, y byddwn yn debygol o gymryd camau mwy difrifol. Gellir ystyried y rhybudd mewn unrhyw achos yn y dyfodol. | | ☑ | ☒ |
| **Cerydd**: rydym yn rhoi cerydd i unigolyn neu gwmni pan fydd wedi torri ein gofynion neu'n safonau yn gymharol ddifrifol. | Canolig | ☑ | ☒ |
| **Dirwy**: lle torrwyd ein gofynion neu’n safonau'n ddifrifol a lle, er enghraifft, y gallai'r person neu'r cwmni a reoleiddir fod wedi elwa'n ariannol o'r camymddygiad, a'i bod yn briodol dileu neu leihau ei enillion ariannol. | Digwyddiad difrifol neu gyfres o ddigwyddiadau sydd gyda'i gilydd yn ddifrifol | ☑ Hyd at £2,000* | ☑ Diderfyn |
| **Amodau gwaith a gaiff eu pennu i gyfreithiwr neu rywun arall rydym yn ei reoleiddio**: rydym yn cyfyngu neu'n atal cyfreithiwr neu unigolyn rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol neu gymryd rhan mewn cytundebau/cymdeithasau | Difrifol neu gyfres o ddigwyddiadau sydd gyda'i gilydd yn ddifrifol, a phan fo angen delio â'r risg a achosir | ☑ | ☑ Cyfeirir ato fel 'gorchymyn cyfyngu’ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| busnes neu drefniadau gwaith penodol. | | | |
| **Amodau gwaith a gaiff eu pennu i gwmni:** rydym yn cyfyngu neu'n atal cwmni, neu un o'i reolwyr, cyflogeion neu ddeiliaid diddordeb, rhag ymgymryd â gweithgareddau penodol. Gall hyn hefyd ein helpu i fonitro'r cwmni neu'r unigolyn yn effeithiol drwy adrodd yn rheolaidd. | Difrifol neu gyfres o ddigwyddiadau sydd gyda'i gilydd yn ddifrifol, a phan fydd gwneud hynny er budd y cyhoedd | ☑ | ☑<br>Cyfeirir ato fel 'gorchymyn cyfyngu’ |
| **Cerydd difrifol**: mae'r SDT yn pennu sancsiynau i'r sawl a reoleiddir am dorri ein gofynion a/neu ein safonau. Dyma’r hyn y mae’r SDT yn ei wneud sy'n cyfateb i'n cerydd ni. | | ☒ | ☑ |
| **Gorchymyn Adran 43 (ar gyfer y rhai nad ydynt yn gyfreithwyr sy'n gweithio yn y proffesiwn, ee rheolwyr nad ydynt yn gyfreithwyr a gweithwyr fel ysgrifenyddion cyfreithiol):** rydym yn cyfyngu ar unigolion rhag gweithio mewn cwmni cyfreithiol heb ein caniatâd. | Difrifoldeb cymedrol, neu gyfres o ddigwyddiadau sydd gyda'i gilydd yn gymharol ddifrifol | ☑ | ☑ |
| **Atal neu ddirymu awdurdodiad/cydnabyddiaeth cwmni:** rydym yn dileu awdurdodiad cwmni naill ai'n barhaol neu dros dro. | Digwyddiad difrifol neu gyfres o ddigwyddiadau sydd gyda'i gilydd yn ddifrifol | ☑ | ☑ |
| **Gwahardd:** mae'r SDT yn gwahardd cyfreithiwr rhag gweithio naill ai am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol. Gall yr SDT hefyd atal cyfnod o waharddiad, cyn belled â bod gorchymyn cyfyngu yn parhau ar waith. | | ☒ | ☑ |
| **Dileu**: mae'r SDT yn atal cyfreithiwr rhag gweithio yn | Digwyddiad difrifol neu gyfres o | ☒ | ☑ |

| | |
|---|---|
| gyfan gwbl. Mae enw'r cyfreithiwr yn cael ei dynnu oddi ar y Rhôl. | ddigwyddiadau sydd gyda'i gilydd yn ddifrifol |

* Fodd bynnag, gallwn bennu dirwy o hyd at £250m ar ABS a dirwy o hyd at £50m ar reolwyr a gweithwyr ABS

# Rhestr o dermau

**Canlyniad y cytunwyd arno**

Dewis arall yn lle cael gwrandawiad achos yn yr SDT. Lle y bo'n briodol, mae'n ffordd gost-effeithiol, gyflym a chymesur o ddatrys mater. Rhaid i'r SDT gymeradwyo'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

**Strwythur busnes amgen (ABS)**

Fe'i gelwir hefyd yn gorff trwyddedig, ac mae Strwythurau Busnes Amgen yn caniatáu i bobl nad ydynt yn gyfreithwyr fod yn berchen ar gwmnïau'r gyfraith neu fuddsoddi ynddynt, gan agor yr hyn a oedd gynt yn farchnad gaeedig.

**Canlyniad/canlyniad a rhybuddio**

Canlyniad ar gyfer camymddwyn mwy sylweddol ond sydd wedi digwydd unwaith yn unig. Gellir ystyried y canlyniad/canlyniad a rhybuddio yng nghanlyniad unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol.

**Dirwy**

Sancsiwn ariannol. Gallwn roi dirwy o hyd at £2,000 i gwmnïau, cyfreithwyr ac unigolion eraill rydym yn eu rheoleiddio. Gallwn ddirwyo ABS hyd at £250m a hyd at £50m ar gyfer rheolwr a chyflogeion ABS rydym yn eu rheoleiddio. Gall yr SDT bennu dirwyon diderfyn ar unigolion a chwmnïau.

**Ymyrryd**

Camau a gymerwn os ydym yn meddwl bod pobl mewn perygl o gael gwasanaethau cyfreithiol gan gyfreithiwr anonest, neu fel arall mae angen diogelu buddiannau cleientiaid. Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu cau'r cwmni a mynd ag arian a ffeiliau cleientiaid gyda ni i'w cadw'n ddiogel.

**Ombwdsmon Cyfreithiol (LeO)**

Sefydliad sy'n ymdrin â chwynion am safonau gwasanaeth y mae pobl yn eu cael gan eu cyfreithiwr.

**Llythyr cyngor**

Llythyr a anfonwn i atgoffa unigolyn neu gwmni yn ysgrifenedig o'i gyfrifoldebau rheoleiddiol.

**Dim gorchymyn**

Yng nghyd-destun canlyniad yn yr SDT, ni all unrhyw orchymyn olygu bod yr SDT yn dod i benderfyniad o'n plaid ond yn penderfynu nad yw'n angenrheidiol nac yn briodol gosod sancsiwn neu reolaeth. Gall hefyd olygu nad yw o'n plaid.

**Penderfyniad arall**

Yng nghyd-destun canlyniad yn yr SDT, gall arall olygu, er enghraifft, cerydd difrifol neu orchymyn adran 43.

**Cerydd**

Rydym yn rhoi cerydd i unigolyn neu gwmni i ddangos anghymeradwyaeth pan fydd wedi torri ein gofynion neu'n safonau yn gymharol ddifrifol.

**Amodau gwaith**

Sancsiwn yr ydym ni a'r SDT yn gallu ei roi i gyfreithwyr, cwmnïau a phobl eraill rydym yn eu rheoleiddio. Mae'n eu cyfyngu neu'n eu hatal rhag gweithgarwch penodol, a gall ein helpu i fonitro'r cwmni neu'r unigolyn yn effeithiol drwy adrodd yn rheolaidd.

**Cytundeb setlo rheoleiddiol (RSA)**

Yn debyg i ganlyniadau y cytunwyd arnynt, mae Cytundebau Setlo Rheoleiddiol yn ein galluogi i gytuno ar ganlyniadau priodol gydag unigolion a chwmnïau yn gyflym, yn effeithlon ac am gost gymesur. Yn wahanol i ganlyniadau y cytunwyd arnynt, cânt eu trin yn fewnol ac maent yn digwydd yn gyffredinol cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud i gyfeirio'r mater at yr SDT.

**Cerydd difrifol**

Mae'r SDT yn rhoi cerydd difrifol i unigolyn sydd wedi torri ein rheoliadau. Dyma’r hyn y mae’r SDT yn ei wneud sy'n cyfateb i'n cerydd ni.

**Atebydd**

Yr atebydd yw'r cwmni, y cyfreithiwr neu'r unigolyn arall yr ydym yn cymryd camau gorfodi yn ei erbyn neu y byddwn yn cymryd camau gorfodi yn ei erbyn.

**Rhôl cyfreithwyr**

Mae hwn yn gofnod o gyfreithwyr yr ydym wedi'u hawdurdodi i weithio yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Ni fydd pob cyfreithiwr ar y rhôl yn gweithio fel cyfreithiwr.

**Sancsiynau**

Camau a gymerwyd i ddisgyblu cwmnïau, cyfreithwyr neu bobl eraill rydym yn eu rheoleiddio i atal ymddygiad tebyg ganddynt hwy neu eraill yn y dyfodol, ac i gynnal safonau a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

**Gorchymyn adran 43**

Sancsiwn rydym yn ei roi i'r rhai nad ydynt yn gyfreithwyr sy'n gweithio yn y proffesiwn, ee rheolwyr nad ydynt yn gyfreithiwyr a gweithwyr megis ysgrifenyddion cyfreithiol. Rydym yn eu hatal rhag gweithio mewn cwmni cyfreithiol heb ein caniatâd.

**Adran 47 (2) (g)**

Gorchymyn y mae'r SDT yn ei bennu sy'n atal cyn-gyfreithiwr sydd wedi'i dynnu oddi ar y Rhôl rhag cael ei enw'n ôl arni heb ei ganiatâd.

**Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr (SDT)**

Tribiwnlys annibynnol lle rydym yn erlyn cwmnïau, cyfreithwyr a phobl eraill rydym yn eu rheoleiddio. Mae ganddo bwerau nad oes gennym ni, e.e. pennu dirwyon diderfyn neu ddileu cyfreithwyr oddi ar y Rhôl.

**Dileu oddi ar y Rhôl**

Sancsiwn lle mae'r SDT yn atal cyfreithiwr rhag gweithio ac yn tynnu ei enw oddi ar y Rhôl.

**Gwahardd**

Sancsiwn y gallwn ei osod i atal awdurdodiad cwmni naill ai'n barhaol neu dros dro. Mae'r SDT yn gallu atal cyfreithiwr rhag gweithio naill ai am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol. Gall yr SDT hefyd atal cyfnod o waharddiad, cyn belled â bod gorchymyn cyfyngu yn parhau ar waith.